Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd

# Twf ac Opsiynau Gofodol

Ionawr 2023



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales
Llofnodydd y Siarter | Charter Signatory

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

# Cynnwys


**CRYNODEB GWEITHREDOL** 4

**1. CYFLWYNIAD** 6

1.1 Pwrpas y Papur hwn 6

1.2 Cefndir 7

1.3 Proses Ymgynghori 8

**2. CYD-DESTUN POLISI CENEDLAETHOL** 9

2.1 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 9

2.2 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021) 10

**3. DEWISIADAU TWF** 11

3.1 Senarios Twf 11

3.2 Asesu Dewisiadau Twf yn erbyn Amcanion y CDLIN 14

**4. DEWISIADAU TIR CYFLOGAETH** 15

4.1 Argymhelliad Un 15

4.2 Argymhelliad Dau 15

**5. DEWISIADAU GOFODOL** 16

**6. SYLFAEN DYSTIOLAETH A DWEUD EICH DWEUD** 17


*Delwedd Clawr Blaen: Aerial Casnewydd, I'r Dwyrain o Afon Wysg*

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

# Atodiadau, Ffigurau a Thablau


**ATODIAD A: ASESU DEWISIADAU TWF YN ERBYN AMCANION Y CDLIN** 18

**ATODIAD B: ASESU DEWISIADAU GOFODOL YN ERBYN AMCANION Y CDLIN** 44


## FFIGURAU


Ffigur 1: Tabl yn dangos senarios twf a gynigir gan y Dystiolaeth Ddemograffig 10



## THABLAU


Tabl 1: Cyfraddau cyffredinol twf tai a chyflogaeth dan bob senario a'r strategaeth gyfredol 12

Tabl 2: Dewisiadau twf tai a swyddi 13

Tabl 3: Deilliannau asesu'r dewisiadau twf 14

Tabl 4: Deilliannau asesu dewisiadau gofodol 16

# Crynodeb Gweithredol

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd y CDLIN yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2021 a 2036 ac yn nodi graddfa a lleoliad datblygiadau newydd i Gasnewydd dros y cyfnod hwn.

Mae'r gwaith a wnaed hyd yma wedi sefydlu fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac mae ymgynghoriad anffurfiol ar weledigaeth ac amcanion y Cynllun wedi'i wneud. Mae'r papur hwn yn cyflwyno gwahanol opsiynau twf tai a chyflogaeth a dosbarthiad gofodol. Mae'r dewisiadau twf o ran tai a chyflogaeth wedi'u nodi gan ddefnyddio ymchwil dechnegol sy'n cael ei chyflwyno ochr yn ochr â'r papur hwn. Pwrpas yr opsiynau twf tai a chyflogaeth yw cyflwyno graddfeydd gwahanol o dwf sydd wedi deillio o ddefnyddio gwahanol ddulliau neu ragdybiaethau i gael adborth i lywio'r strategaeth dwf a ffefrir y bydd y CDLIN yn ei gyflawni. Cyflwynir gwahanol opsiynau gofodol i roi syniad o sut y gellid dosbarthu twf ledled Casnewydd, er nad oes unrhyw leoliadau penodol wedi cael eu hasesu ar hyn o bryd.

## Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

Cymru'r Dyfodol: Mae Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu'r fframwaith polisi cenedlaethol perthnasol sy'n llywio twf cynlluniau datblygu lleol a strategaethau gofodol. Mae adran 2 yn amlinellu polisïau cenedlaethol sydd wedi cael eu nodi fel rhai sy'n berthnasol i strategaeth twf a gofodol CDLIN Casnewydd ac sydd wedi llywio gwaith paratoi'r papur hwn. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu hefyd wedi llywio'r gwaith o baratoi'r papur hwn. Mae'r Llawlyfr yn rhoi arweiniad o ran polisïau cenedlaethol a gofynion cyfreithiol o ran llunio cynlluniau.

## Dewisiadau Twf

Mae adran 3 yn amlinellu gwahanol senarios tai a thwf swyddi, sy'n cael eu llywio gan ymchwil ddemograffig. Mae'r senarios hyn wedi'u hystyried ochr yn ochr â threiglo strategaeth bresennol y Cynllun Datblygu Lleol, fodd bynnag, mae'r senario hon, ochr yn ochr â phump arall wedi'u disgowntio i adael chwe opsiwn amgen realistig, sy'n cyd-fynd yn fwy â rôl genedlaethol Casnewydd fel ardal dwf. Mae asesiad lefel uchel o'r cyfraniad y bydd y chwe opsiwn yma yn ei wneud i gyflawni amcanion y CDLIN wedi'i wneud fel rhan o'r papur hwn i ddechrau cynorthwyo cymhariaeth. Fodd bynnag, ni ddaethpwyd i gasgliadau ynghylch hyn gan y bydd y rhain yn cael asesiad pellach i sefydlu strategaeth tai a thwf swyddi a ffefrir. Crynhoir yr opsiynau hyn isod[1].

[1]. Nid yw'r cyflenwad tai presennol wedi'i gyfrifo i'r ffigyrau gofyniad tai a gyflwynir.

# Crynodeb Gweithredol

| Senario | Disgrifiad | Anheddau | | Swyddi | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Y flwyddyn | Cyfradd gyffredinol | Y flwyddyn | Cyfradd gyffredinol |
| 1. 5ML a arweinir gan anheddau | Modelu effaith poblogaeth twf cyfartalog mewn anheddau o +838 annedd y flwyddyn (ayf), seiliedig ar hanes 5-mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2015/16–2019/20). | 838 | **12,570** | 863 | **12,945** |
| 2. LIC-2018-POBUCH | Ailadrodd rhagamcaniad poblogaeth uchel Llywodraeth Cymru yn 2018, wedi'i ail-seilio ar ffigur poblogaeth cyfrifiad 2021 ac yn ymgorffori rhagdybiaethau am ffrwythlondeb uchel, marwolaethau a mudo. | 632 | **9,480** | 713 | **10,695** |
| 3. 10ML a arweinir gan anheddau | Modelu effaith poblogaeth twf cyfartalog mewn anheddau o +638 ayf, seiliedig ar hanes 10-mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2010/11–2019/20). | 638 | **9,570** | 576 | **8,640** |
| 4. LIC-2018-Prif | Ailadrodd Prif ragamcaniad poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2018, gan ddefnyddio data poblogaeth hanesyddol am 2001–2018. | 530 | **7,950** | 627 | **9,405** |
| 5. TR-Tymor Hir | Defnyddio blwyddyn sail SYG 2020 MYE ac yn graddio ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 19 mlynedd (2001/02–2019/20). | 540 | **8,100** | 448 | **6,720** |
| 6. Ymgodi OE+D&I a arweinir gan gyflogaeth | Modelu effaith poblogaeth twf cyfartalog mewn cyflogaeth o +389 y flwyddyn dros gyfnod y cynllun, gydag ymgodiad wedi ei gymhwyso i ragolwg economaidd yr OE, seiliedig ar ragamcanion cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol bargen ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd (DRC). | 507 | **7,605** | 389 | **5,835** |

Mae adran 4 yn amlinellu dau o'r argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad Tir Cyflogaeth (ATC). Mae'r cyntaf yn ymwneud â maint y tir cyflogaeth sydd ei angen dros gyfnod y cynllun. Argymhellir gofyniad o 77ha. Mae hyn yn gwyro o senarios twf swyddi o dan fethodoleg Oxford Economics (OE) ac yn hytrach mae'n seiliedig ar dueddiadau cyflenwi. Y prif resymu am hyn yw oherwydd bod tueddiadau twf swyddi o dan ddull OE yn tueddu i dybio bod safleoedd cyflogaeth diffaith neu nad sydd mo'u hangen yn addas ar gyfer gwahanol sectorau cyflogaeth a rhai sy'n dod i'r amlwg, ond nid yw hynny bob amser yn wir. Mae'r ail argymhelliad yn ymwneud â chyflenwad tir cyflogaeth. Mae'r ATC yn ystyried ymrwymiadau presennol ac yn argymell cadw dyraniadau cyflogaeth presennol. Fodd bynnag, mae lle i ystyried y cyflenwad presennol ymhellach, yn enwedig er mwyn ceisio mynd i'r afael ag anghenion ar gyfer gwahanol fathau o dir cyflogaeth dros gyfnod y cynllun.

## Dewisiadau Gofodol

Mae adran 5 yn dangos y pum opsiwn dosbarthu gofodol sy'n cael eu hystyried yn weddol realistig ar gyfer y CDLIN. Daethpwyd at yr opsiynau hyn drwy gymhwyso egwyddorion polisi cenedlaethol o ran blaenoriaethu ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol, yn ogystal â dealltwriaeth gynnar o argaeledd tir a'r angen i gefnogi cymunedau gwledig o fewn ardal yr awdurdod. Yn yr un modd ag opsiynau twf tai a swyddi, mae'r pedwar opsiwn sydd wedi'u nodi wedi cael eu hasesu ar lefel uchel o ran eu cyfraniad at amcanion datblygol y cynllun. Mae'r mapiau canlynol yn rhoi darlun o'r hyn y gallai'r dosbarthu hyn ei olygu o ran twf hyd at 2036.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Pwrpas y Papur hwn

Mae Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) am y cyfnod 2021-2036. Unwaith iddo gael ei fabwysiadu, bydd yn cymryd lle Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyfredol 2011-2026 sy'n ffurfio rhan o'r Cynllun Datblygu statudol i Gasnewydd. Bydd y CDLIN yn cynnwys polisïau a chynigion a fydd, gyda'i gilydd, yn darparu am anghenion a dyheadau datblygu'r Ddinas yn ogystal ag amddiffyn a gwella asedau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Casnewydd.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) yn ceisio sylwadau am ddewisiadau twf a gofodol i fod yn sail o wybodaeth i baratoi'r CDLIN. Nid oes rheidrwydd statudol i ymwneud â'r cyhoedd yn y cyfnod hwn, ond yn hytrach, y mae'n gam ymgynghori anffurfiol i fod yn sail o wybodaeth i'r Strategaeth Ddewisol. Cynhelir ymgynghoriad anstatudol ar y dewisiadau twf a gofodol o **25 Ionawr 2023 tan 08 Mawrth 2023**.

Mae'r papur Dewisiadau Twf a Gofodol yn nodi nifer o ddewisiadau strategaeth twf a gofodol i'w hystyried fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Yn sail i'r papur, mae Tystiolaeth Ddemograffig a baratowyd gan Edge Analytics ac Adolygiad Tir Cyflogaeth a baratowyd gan BE Group. Nod yr ymgynghoriad yw cael syniad o farn y partïon sydd â diddordeb am sut y dylai Casnewydd dyfu dros gyfnod y cynllun newydd.

Mae twf, yn y cyd-destun hwn, yn ymwneud â nifer y tai a swyddi newydd y bydd y CDLIN yn cynllunio ar eu cyfer dros y cyfnod 2021 tan 2036. Nododd y Cyngor nifer o ddewisiadau twf y rhoddir prawf arnynt er mwyn pennu'r strategaeth fwyaf addas a chynaliadwy am dai a swyddi hyd at 2036. Sefydlwyd y dewisiadau hyn trwy ddefnyddio senarios a ddeilliodd o dystiolaeth a gomisiynwyd yn annibynnol gan y Cyngor a rhoddwyd ystyriaeth i ffactorau eraill er mwyn cynhyrchu nifer llai o ddewisiadau eraill.

Mae a wnelo tir cyflogaeth â safleoedd lle mae defnydd sy'n dod o dan Ddosbarth Defnydd B (fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd[2]) yn ddefnydd craidd. Mae'r CDLl a fabwysiadwyd yn nodi cyflenwad mawr o dir cyflogaeth i gwrdd ag anghenion dros y cyfnod 2011-2026. Cynhaliwyd Adolygiad Tir Cyflogaeth (ATC) i fod yn sail o wybodaeth i'r CDLIN. Mae'n ystyried anghenion am gyflogaeth dros y cyfnod 2021-2036 ac yn gwneud argymhellion ynghylch graddfa'r tir cyflogaeth fydd ei angen i gwrdd â'r anghenion a ragwelwyd ac yn asesu addasrwydd dyraniadau cyflogaeth presennol.

Mae a wnelo dosbarthiad gofodol a lleoliad twf newydd ac egwyddorion sefydlu'r lle gorau ar gyfer datblygiadau newydd. Nodwyd nifer o ddewisiadau a allai fod yn ddichonadwy o fewn ffin weinyddol Casnewydd. Rhoddir prawf ar y rhain er mwyn deall y gwahanol ddeilliannau fydd yn dod i'r amlwg yn erbyn y fframwaith arfarniad cynaliadwyedd integredig ac amcanion y CDLIN. Bydd graddfa ddewisol y twf a'r tir fydd ar gael yn dylanwadu ar ddosbarthiad gofodol y twf hwn, ond bydd ymchwilio i ddewisiadau gofodol yn galluogi'r Cyngor i ddeall pa agwedd ofodol sydd yn debyg o fod yn fwyaf manteisiol i Gasnewydd gyfan.

[2] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (Fel y'i Diwygiwyd)

## 1.2 Cefndir

Mae'r Cyngor yn y cyfnod cynnar o baratoi'r CDLIN. Gosodir y camau a'r amserlenni hyn allan yn fanylach yn y Cytundeb Cyflwyno[3] a gyhoeddwyd. Cymeradwywyd y Cytundeb Cyflawni ym mis Mai 2021 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i adlewyrchu oedi gyda'r amserlen gymeradwy. Am fwy o wybodaeth am y CDLIN ewch i wefan y Cyngor ar https://www.newport.gov.uk/cy/Planning-Housing/Planning/Planning-policy/Local-Development-Plan/Replacement-Local-Development-Plan/Replacement-Local-Development-Plan.aspx.

Hyd yma, gwahoddodd y Cyngor gyflwyniadau am safleoedd posibl; mae wedi datblygu Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac wedi ymgynghori ar weledigaeth ac amcanion[4] y CDLIN. Bydd y cyfnod dewisiadau twf a gofodol yn adeiladu ar y camau cynharaf hyn i ddechrau asesu'r strategaeth twf a gofodol a gyflwynir gan y CDLIN. Yn dilyn y cam ymwneud hwn trwy ymgynghori anffurfiol, bydd y Cyngor yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ynghyd a deilliannau'r ACI cychwynnol, dogfennau eraill sy'n sylfaen o dystiolaeth, ac asesiad yn erbyn yr amcanion sy'n dod i'r amlwg er mwyn cael y strategaeth twf a gofodol ddewisol. Bydd paratoi'r Strategaeth Ddewisol yn dilyn yr ymwneud hwn, a bydd yn cyflwyno deilliannau'r gwaith a wnaed hyd yma ar y Weledigaeth, Materion a dewisiadau, yn ogystal â'r strategaethau twf a gofodol dewisol. Bydd y strategaeth ddewisol hefyd yn cyflwyno gwaith a wnaed i adolygu polisïau strategol a rheoli datblygu y CDLI a fabwysiadwyd. Cyhoeddir y Gofrestr Safleoedd Posibl a'r adroddiad ACI Cychwynnol yng nghyfnod y strategaeth ddewisol, a bydd cyfle i gyflwyno safleoedd posibl newydd. Wedi hyn, paratoir yr Adroddiad Ymgynghori cychwynnol a'r Cynllun Adnau, a'i ddilyn gan fwy o ymgynghori a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio.




*Delwedd: Ymgynghoriadau CDLIN hyd yma*

[3] Dolen i'r cytundeb cyflwyno

[4] Cafodd yr Adroddiad Ymgysylltu ar Weledigaeth, Materion ac Amcanion ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2022.

## 1.3 Proses Ymgynghori

Cyhoeddwyd y papur Dewisiadau Twf a Gofodol ochr yn ochr â'r Dystiolaeth Ddemograffig ac Adolygiad Tir Cyflogaeth a gynhyrchwyd i Gasnewydd er mwyn paratoi'r CDLIN. Mae ffurflen ymgynghori hefyd ar gael, y gellir ei defnyddio i wneud sylwadau. Hefyd, cyhoeddwyd Cytundeb Cyflwyno diwygiedig i ddiweddaru llinell amser paratoi'r CDLIN. Cynhelir ymgynghoriad anstatudol yn unol â'r Cynllun Ymwneud Cymunedol[5] a gymeradwywyd am 6 wythnos, ac yn ystod yr amser hwn, mae'r Cyngor yn gwahodd sylwadau am y Papur Dewisiadau Twf a Gofodol. Derbynnir sylwadau o 25 Ionawr 2023 i 8 Mawrth 2023.

Nodwyd rhanddeiliaid trwy gronfa ddata CDLIN y Cyngor, ac fe'u hysbyswyd trwy eu dewis ddull. Byddwn hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad hwn trwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor a thrwy Materion Casnewydd. Mae'r holl ddogfennau cysylltiedig â'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor. Mae copïau caled o ddogfennau hefyd ar gael i'w gweld yn y Ganolfan Ddinesig trwy apwyntiad ac yn y Llyfrgell Ganolog.



*Delwedd: Canol dinals Casnewydd a glan yr afon*

[5] Gellir gweld y Cynllun Ymwneud Cymunedol yn Adran 4 y Cytundeb Cyflwyno.

# 2. Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

## 2.1 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ar 24 Chwefror 2021. Cymru'r Dyfodol yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru, a dyma haen uchaf y cynllun datblygu yng Nghymru. Mae'n rhoi'r fframwaith gofodol i ddarparu seilwaith/twf newydd ac yn ceisio rheoli datblygu a defnydd tir trwy'r system gynllunio, yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol er budd y cyhoedd.

Mae Cymru'r Dyfodol yn amlinellu 18 o bolisïau cenedlaethol a phedwar o bolisïau rhanbarthol. Y rhai sy'n berthnasol i strategaeth twf a gofodol Casnewydd yw Polisi 33 - Ardal Dwf Genedlaethol, Polisi 34 Lleiniau Gwyrdd yn y De-Ddwyrain a Pholisi 36 -Metro'r De-Ddwyrain. Mae'n bwysig fod Polisi 33 yn nodi Casnewydd fel Ardal Dwf Genedlaethol, ynghyd â Chaerdydd a'r Cymoedd. Mae'r rôl hon yn mynnu bod Cynlluniau Datblygu Cenedlaethol yn cydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel canolbwynt twf economaidd strategol a thai. Dylai hefyd fod yn ganolbwynt gwasanaethau hanfodol, cyfleusterau, gweithgynhyrchu uwch, trafnidiaeth a seilwaith digidol. Yn benodol i Gasnewydd, dywed Polisi 33 Cymru'r Dyfodol fod:

> ***Llywodraeth Cymru yn cefnogi rôl gynyddol strategol i Gasnewydd fel canolbwynt i dwf a buddsoddiad cynaliadwy, tymor-hir. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau yn y rhanbarth ac yn Lloegr i hyrwyddo rôl strategol Casnewydd a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yng Nghymru a Lloegr yn cefnogi Casnewydd.***

Agwedd allweddol ar gefnogi twf sydd o bwysigrwydd strategol a chenedlaethol yw gwella symudedd ar draws y rhanbarth trwy ddulliau cludiant cynaliadwy. Mae Polisi 36 Cymru'r Dyfodol yn mynnu bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn cefnogi Metro'r De-Ddwyrain trwy gynllunio twf ac adfywio mewn modd sy'n manteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a rhydd o geir o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell.

Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn mynnu bod y Cynllun Datblygu Strategol yn y dyfodol yn nodi llain werdd i'r gogledd o Gasnewydd i reoli ffurf drefol a maint twf. Hefyd, bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn edrych i mewn i'r angen am y llain werdd a diffinio ei ffin. Rôl Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn hyn o beth yw osgoi caniatáu datblygiadau mawr mewn ardaloedd a ddangosir fel rhai i'w hystyried am leiniau gwyrdd, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol iawn.

Mae cynnwys Casnewydd fel canolfan Twf Cenedlaethol yn gryn hwb i'r ddinas ac felly, bu'n sail, ynghyd â holl ystyriaethau eraill Cymru'r Dyfodol, i baratoi'r Dewisiadau Twf a Gofodol.

# 2. Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

## 2.2 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021)

Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) (PCC). Adolygwyd y ddogfen i adlewyrchu Cymru'r Dyfodol a sicrhau polisi cynllunio cenedlaethol cydlynol sy'n integreiddio gyda PCC a Chymru'r Dyfodol, gan gyfrannu tuag at amcanion lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol. Ar y cyd, maent yn fframwaith i lywio paratoi'r CDLIN i gyflwyno llefydd cynaliadwy a deilliannau datblygu. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol i fod i gael eu paratoi yng nghyd-destun yr Egwyddor Cynllunio Allweddol ac y mae'r holl gynlluniau a chynigion yn destun prawf porth, lle cânt eu hasesu yn erbyn y materion Dewisiadau Strategol a Gofodol a Deilliannau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol a nodir gan PCC.

Mae pennod 3 PCC yn arbennig o bwysig wrth bennu'r strategaeth twf a gofodol priodol i Gasnewydd dros gyfnod y cynllun, sef 2021-2036. Agwedd allweddol ar hyn yw dwyn i mewn bartïon â diddordeb fel sail o wybodaeth i ddeall effeithiau a chyfleoedd pob un o'r dewisiadau. Mae Pennod 3 yn amlinellu'r ffaith fod angen strategaeth ofodol i'w nodi gan Gynllun Datblygu Lleol a bod yn rhaid iddi ymestyn dros einioes y cynllun; mae hefyd yn rhoi'r dilyniant chwilio am safleoedd y dylid ei dilyn wrth nodi lleoliadau ar gyfer datblygiadau newydd neu adfywio. Mae'r dilyniant chwilio am safleoedd yn datgan, mewn egwyddor, y dylai paratoi'r CDLIN ystyried tir a ddatblygwyd yn flaenorol neu safleoedd a danddatblygwyd o fewn ffiniau aneddfannau cyn ystyried tir ar ffiniau aneddfannau. Dan amgylchiadau eithriadol yn unig y dylid ystyried safleoedd yng nghefn gwlad agored, gan gynnwys aneddfannau newydd. Paratowyd y Dewisiadau Twf a Gofodol gan gadw'r PCC mewn cof.








*Delwedd: Dogfennau Polisi Cynllunio Cenedlaethol*

# 3. Dewisiadau Twf

## 3.1 Senarios Twf

Comisiynodd CDC Dystiolaeth Ddemograffig[6] fel rhan o'r sylfaen o dystiolaeth sy'n sail i'r CDLIN. Mae'r Adroddiad yn ystyried proffiliau demograffig a chyflogaeth presennol Casnewydd ac yn amlinellu ystod o senarios twf tai a chyflogaeth gan ddefnyddio 2021 fel dyddiad sylfaen. Sail y rhain yw naill ai rhagfynegiadau swyddogol Llywodraeth Cymru, senarios tueddiadau amgen seiliedig ar hanesion mudo eraill, senarios a arweinir gan anheddau sy'n gysylltiedig â chyfraddau cwblhau'r gorffennol neu senarios a arweinir gan gyflogaeth. Mae'r Adroddiad yn darparu unarddeg o senarios twf gydag angen diffiniedig am anheddau a swyddi cyfartalog y flwyddyn dros y cyfnod 2021-2036. Darperir y senarios hyn yn Ffigur 1.


*Delwedd: Fflatiau a thai tref ar hyd Afon Wysg*

Newport – Scenario outcomes, 2021–2036

| Scenario | Change 2021–2036 | | | | Average per year | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Population Change | Population Change % | Households Change | Households Change % | Net Migration | Dwellings | Employ-ment |
| Dwelling-led 5YR | 23,838 | 14.9% | 12,117 | 18.3% | 836 | 838 | 863 |
| PG-Short Term | 23,569 | 14.8% | 11,667 | 17.7% | 808 | 807 | 844 |
| WG-2018-HIGHPOP | 18,704 | 11.7% | 9,142 | 13.8% | 768 | 632 | 713 |
| Dwelling-led 10YR | 16,780 | 10.5% | 9,226 | 14.0% | 420 | 638 | 576 |
| WG-2018-Principal | 14,664 | 9.2% | 7,668 | 11.6% | 673 | 530 | 627 |
| PG-Long Term | 14,112 | 8.8% | 7,814 | 11.8% | 235 | 540 | 448 |
| Employment-led OE+D&I Uplift | 12,638 | 7.9% | 7,332 | 11.1% | 143 | 507 | 389 |
| Employment-led OE+D Uplift | 10,159 | 6.4% | 6,345 | 9.6% | -3 | 439 | 289 |
| WG-2018-LOWPOP | 8,944 | 5.6% | 5,719 | 8.7% | 582 | 395 | 537 |
| WG-2014-Principal | 6,799 | 4.3% | 4,616 | 7.0% | -30 | 319 | 183 |
| Employment-led OE | 6,402 | 4.0% | 4,847 | 7.3% | -225 | 335 | 137 |

Source: ONS, Edge Analytics POPGROUP modelling

***Ffigur 1: Tabl yn dangos senarios twf a gynigir gan y Dystiolaeth Ddemograffig***

[6] Tystiolaeth Ddemograffig, Edge Analytics, Medi 2022

# 3. Dewisiadau Twf

Gellid ystyried yr holl senarios hyn yn ddewisiadau twf posibl i'r CDLIN ymdrin â hwy. Fodd bynnag, o'r unarddeg senario, ystyrir bod rhai yn afresymol a gellir eu hanwybyddu cyn asesu yn erbyn amcanion y cynllun a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI). Mae Tabl 1 yn rhoi allbwn pob senario fel gofyniad cyfartalog y flwyddyn a chyfradd gyffredinol twf dan y senario honno. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys strategaeth y CDLI cyfredol.

Wrth ystyried y senarios hyn, mae'r senarios a arweinir gan gyflogaeth yn dueddol o arwain at angen negyddol am dir cyflogaeth dros gyfnod y cynllun, gan ragweld twf cyflogaeth yn gynnar yng nghyfnod y cynllun, a dirywiad wedyn[7]. Y canlyniad yw senarios sy'n is o lawer na'r strategaeth twf a fabwysiadwyd. Nid yw'r senarios hyn yn adlewyrchu ffocws Casnewydd am dwf a sefydlwyd gan Gynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040 a rhaid i'r CDLIN asio gyda'r cynllun hwn. Ochr yn ochr ag Ymgodi OE+D&I a arweinir gan gyflogaeth ac OE a arweinir gan gyflogaeth, anwybyddir LIC-2018-POBUCH a LIC-2014-Prif hefyd am eu bod yn arwain at yr un fath o gyfradd dwf is.

Ymhellach, mae lle i ystyried lle mae dim ond mân wahaniaethau rhwng senarios i helpu i asesu'r rhain a thynnu ar wahaniaethau i helpu dadansoddi cymharol. Mae'r ddwy senario ar ben uchaf y raddfa yn debyg, gan arwain at gyfraddau twf cyffredinol sydd ond fymryn yn wahanol. O'r herwydd, dim ond y gyfradd uwch o dwf a ystyrir ymhellach, gan y bydd rhoi prawf ar hyn yn galluogi'r Cyngor i asesu cyfradd uchelgeisiol o dwf, sy'n adlewyrchu rôl twf y Ddinas.

***Tabl 1: Cyfraddau cyffredinol twf tai a chyflogaeth dan bob senario a'r strategaeth gyfredol***

| Senario | Anheddau | | Swyddi | |
|---|---|---|---|---|
| | Y flwyddyn | Cyfradd gyffredinol | Y flwyddyn | Cyfradd gyffredinol |
| 5ML a arweinir gan anheddau | 838 | **12,570** | 863 | **12,945** |
| TR-Tymor byr | 807 | **12,105** | 844 | **12,660** |
| Strategaeth CDLl Cyfredol | 690 | **10,350** | 493 | **7,400** |
| LIC-2018-POBUCH | 632 | **9,480** | 713 | **10,695** |
| 10ML arweinir gan anheddau | 638 | **9,570** | 576 | **8,640** |
| LIC-2018-Prif | 530 | **7,950** | 627 | **9,405** |
| TR-Tymor Hir | 540 | **8,100** | 448 | **6,720** |
| Ymgodi OE+D&I a arweinir gan gyflogaeth | 507 | **7,605** | 389 | **5,835** |
| Ymgodi OE+D&I a arweinir gan gyflogaeth | 439 | **6,585** | 183 | **2,745** |
| LIC-2018-POBIS | 395 | **5,925** | 289 | **4,335** |
| LIC-2014-Prif | 319 | **4,785** | 537 | **8,055** |
| OE a arweinir gan gyflogaeth | 335 | **5,025** | 137 | **2,055** |

[7] Adolygiad Tir Cyflogaeth, BE, Chwefror 2022

# 3. Dewisiadau Twf

Cyflwynir y strategaeth a fabwysiadwyd ochr yn ochr â'r senarios twf a nodwyd gan y Dystiolaeth Ddemograffig. Gellir sylwi ar wahaniaethau allweddol wrth gymharu graddfa twf tai a chyflogaeth gyda'r senarios eraill. Mae'r senarios a gyflwynir gan ddefnyddio methodolegau cyfoes yn dueddol o asio'r angen posibl am dai a chyflogaeth yn nes. Er bod y senarios yn cynnig ystod eang o anghenion tai a chyflogaeth posibl, maent oll am gefnogi swyddi newydd trwy dwf mewn tai. Mae hyn yn hanfodol i wella rôl economaidd Casnewydd yn y rhanbarth ac osgoi'r angen i gymudo allan i weithio. Ymhellach, nid yw'n glir a yw unrhyw rai o'r senarios twf yn cyflwyno datblygiad o'r strategaeth gyfredol; mae gwahaniaethau yn digwydd i raddau helaeth oherwydd newidiadau cyd-destunol sydd wedi effeithio ar ragdybiaethau yn ymwneud â mudo a newidiadau naturiol yn y boblogaeth a ddefnyddir gan y methodolegau hyn. Nid yw parhad o'r strategaeth gyfredol felly yn cael ei ystyried ymhellach.

Mae'r strategaethau sydd weddill felly yn wahanol i'w gilydd naill ai o ganlyniad i gyfran y cartrefi i swyddi neu o ganlyniad i'r cyfraddau cyffredinol. Mae'r opsiynau hyn wedi'u nodi yn Nhabl 2.

**Cwestiynau:**

1. A oes unrhyw senarios a ddiystyrwyd ac y tybiwch chi ddylai gael eu hystyried ymhellach a pham?
2. Pa un o'r opsiynau hyn sydd yn eich barn chi yn fwyaf priodol, a pham?

***Tabl 2: Dewisiadau twf tai a swyddi***

| Senario | Disgrifiad | Anheddau | | Swyddi | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Y flwyddyn | Cyfradd gyffredinol | Y flwyddyn | Cyfradd gyffredinol |
| 5ML a arweinir gan anheddau | Modelu effaith poblogaeth twf cyfartalog mewn anheddau o +838 annedd y flwyddyn (ayf), seiliedig ar hanes 5-mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2015/16–2019/20). | 838 | **12,570** | 863 | **12,945** |
| LIC-2018-POBUCH | Ailadrodd rhagamcaniad poblogaeth uchel Llywodraeth Cymru yn 2018, wedi'i ail-seilio ar ffigur poblogaeth cyfrifiad 2021 ac yn ymgorffori rhagdybiaethau am ffrwythlondeb uchel, marwolaethau a mudo. | 632 | **9,480** | 713 | **10,695** |
| 10ML a arweinir gan anheddau | Modelu effaith poblogaeth twf cyfartalog mewn anheddau o +638 ayf, seiliedig ar hanes 10-mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2010/11–2019/20). | 638 | **9,570** | 576 | **8,640** |
| LIC-2018-Prif | Ailadrodd Prif ragamcaniad poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2018, gan ddefnyddio data poblogaeth hanesyddol am 2001–2018. | 530 | **7,950** | 627 | **9,405** |
| TR-Tymor Hir | Defnyddio blwyddyn sail SYG 2020 MYE ac yn graddio ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 19 mlynedd (2001/02–2019/20). | 540 | **8,100** | 448 | **6,720** |
| Ymgodi OE+D&I a arweinir gan gyflogaeth | Modelu effaith poblogaeth twf cyfartalog mewn cyflogaeth o +389 y flwyddyn dros gyfnod y cynllun, gydag ymgodiad wedi ei gymhwyso i ragolwg economaidd yr OE, seiliedig ar ragamcanion cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol bargen ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd (DRC). | 507 | **7,605** | 389 | **5,835** |

# 3. Dewisiadau Twf

## 3.2 Asesu Dewisiadau Twf yn erbyn Amcanion y CDLIN

Aseswyd dewisiadau twf yn erbyn amcanion y CDLIN sy'n dod i'r amlwg. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn Atodiad A.

Rhoddwyd sgôr coch, oren neu wyrdd i bob un o'r dewisiadau yn erbyn pob amcan. Dengys sgoriau coch neu wyrdd a ragwelir cyfraniad bras negyddol neu gadarnhaol tuag at gyrraedd pob amcan. Defnyddiwyd sgoriau oren lle rhagwelir cyfraniadau cadarnhaol a negyddol, neu lle mae cyfraniad yn niwtral neu'n ansicr. Darperir deilliant yr asesiad lefel-uchel hwn yn Nhabl 3. Bydd yr holl ddewisiadau hyn yn destun yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a dadansoddiad pellach fel rhan o bennu strategaeth ddewisol.

**Cwestiynau:**

3 A oes unrhyw faterion eraill y dylid eu hystyried wrth asesu'r senarios hyn a nodi Strategaeth Ddewisol?

*Tabl 3: Deilliannau asesu'r dewisiadau twf*

| Amcanion y CDLIN | Dewis 1 | Dewis 2 | Dewis 3 | Dewis 4 | Dewis 5 | Dewis 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Economi a Chyflogaeth | | | | | | |
| Poblogaeth a Chymunedau | | | | | | |
| Iechyd a Lles | | | | | | |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | | | | | | |
| Trafnidiaeth a Symud | | | | | | |
| Adnoddau Naturiol | | | | | | |
| Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth | | | | | | |
| Amgylchedd Hanesyddol | | | | | | |
| Tirlun | | | | | | |
| Newid yn yr Hinsawdd | | | | | | |

# 4. Dewisiadau Tir Cyflogaeth

Cynhaliwyd Adolygiad Tir Cyflogaeth (ATC) i gefnogi paratoi'r CDLIN[8]. Mae'n ystyried anghenion cyflogaeth dros y cyfnod 2021-2036 ac yn asesu a yw'r cyflenwad o dir cyflogaeth sy'n bod eisoes yn ddigonol ar gyfer yr anghenion a ragfynegwyd. Mae'r papur yn amlinellu ystod o anghenion tir cyflogaeth trwy gymhwyso gwahanol ddulliau ac yna asesu a yw'r cyflenwad presennol yn ddigonol i gynnal yr anghenion hyn.

Seilir y dulliau a ddefnyddiwyd i asesu anghenion naill ai ar gyfraddau cyflwyno blaenorol neu ar ragamcanion Oxford Economics. Modelir y ddwy sail hefyd gan ddefnyddio ymgodiad i adlewyrchu'r astudiaeth cyflogaeth rhanbarthol Mwy Na Lleol. Dylid nodi fod defnyddio dull Oxford Economics yn destun nifer o gyfyngiadau, ac un o'r rhai pennaf yw bod yr agwedd yn rhagdybio y gall tir cyflogaeth sy'n lleihau gael ei gynyddu trwy dyfu sectorau cyflogaeth. Canlyniad hyn yw angen negyddol am dir cyflogaeth a lefelau isel o angen dan senarios 'twf yn unig'. Mae gan y dull seiliedig ar gyflwyno blaenorol fwy o gysylltiad â'r defnydd a wneir o dir ac y mae'n awgrymu rhagfynegi mwy o angen i gwrdd â newid yn anghenion sectorau.

## 4.1 Argymhelliad Un

Mae'r argymhelliad cyntaf a amlinellir gan yr ATC yn awgrymu y dylai'r CDLIN fwrw ymlaen â gofynion am dir cyflogaeth o 77ha. Mae'r ffigur hwn yn defnyddio cyflwyno yn y gorffennol fel sail ac y mae'n cynnwys clustogi er mwyn hwyluso hyblygrwydd, ac ymgodiad i adlewyrchu'r galw rhanbarthol am gyflogaeth. Nododd y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd swm mawr o dir cyflogaeth i'w gyflwyno dros y cyfnod 2011-2026. Yr oedd hyn yn fwy na'r gofyniad am 35ha o dir cyflogaeth newydd. Mae cyflenwad digonol o dir cyflogaeth yng nghyfnod y cynllun newydd, sef 2021-2036.

**Cwestiynau:**

4 A yw'r gofyniad hwn yn briodol i Gasnewydd?

5 A ddylai fod yn wahanol, ac os felly, pam?

## 4.2 Argymhelliad Dau

Mae'r ail argymhelliad yn nodi dyraniadau safleoedd y dylid eu cadw, sef 157.8ha o'r cyflenwad. Mae safleoedd mwy yn cael eu hasesu ac y mae lle i nodi defnydd penodol cysylltiedig ag ehangu cwmni Eastman yn safle Eastman / Solutia ac i ystyried portffolio llai o dir cyflogaeth. Argymhellir dwyrain safle Queensway fel safle y gellid ei thynnu allan petai swm y tir a nodir gan y CDLIN yn cael ei gydgrynhoi. Mae hyn oherwydd bod y safle fwy neu lai yn llawn o unedau diwydiannol, ond y gallai elwa ar adnewyddu. Byddai tynnu'r safle hon allan yn golygu cyflenwad digonol o 90.4ha yn erbyn y gofyniad o 77ha.

**Cwestiynau:**

6 A ddylid tynnu rhai safleoedd o'r cyflenwad cyflogaeth? Pam?

7 A ddylid ystyried defnydd tir amgen ar gyfer rhai safleoedd? Rhowch enghreifftiau o ddefnydd o'r fath, a'ch rhesymeg dros hyn.

[8] Adolygiad Tir Cyflogaeth, BE, Chwefror 2022

# 5. Dewisiadau Gofodol

Mae'r Strategaeth Ofodol yn un o ofynion Cynlluniau Datblygu i sefydlu patrwm o ddatblygu i gefnogi cyflwyno twf yn unol ag amcanion y CDLlN a'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru[9]. Mae nifer o ddewisiadau gofodol i gefnogi cyflwyno twf newydd yng Nghasnewydd hyd at 2036. Yn unol â'r polisi cenedlaethol, mae angen i ddatblygiad newydd gael ei arwain gan y cynllun trwy uniaethu mewn Cynllun Datblygu. Rhaid blaenoriaethu ail-ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol (TDdF). Mae'r strategaeth a fabwysiadwyd yn cefnogi agwedd a arweinir gan TDdF, gyda chryn dipyn o ddatblygiadau yn cael eu cyflwyno ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol[10] ers mabwysiadu'r CDLl yn 2015. Er ein bod yn deall manteision parhau â'r strategaeth hon, y mae peth pryder mai adnodd cyfyng yw tir a ddatblygwyd yn flaenorol, ac efallai na fydd cymaint o safleoedd ag a fu ar gael, neu efallai y bydd ail-ddefnyddio tir ar gyfer tai yn mynnu dad-ddyrannu rhai safleoedd cyflogaeth. O ganlyniad, dylid ystyried dewisiadau eraill fel ehangu trefol, canolbwyntio ar bentrefi, a chymysgedd o'r holl ddewisiadau wrth baratoi'r CDLlN.

Fel gyda'r dewisiadau twf, bu'r rhain yn destun asesiad lefel-uchel yn erbyn amcanion y CDLlN lle rhoddwyd sgôr coch, oren neu wyrdd i bob un o'r dewisiadau yn erbyn pob amcan. Dengys sgoriau coch neu wyrdd a ragwelir cyfraniad bras negyddol neu gadarnhaol tuag at gyrraedd pob amcan. Defnyddiwyd sgoriau oren lle rhagwelir cyfraniadau cadarnhaol a negyddol, neu lle mae cyfraniad yn niwtral neu'n ansicr. Mae'r asesiad yn Atodiad B; fodd bynnag, amlinellir y sgoriau COG yn Nhabl 4. Cymerir yr holl ddewisiadau hyn ymlaen trwy'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, a bydd materion eraill megis y dewis twf dewisol ac argaeledd tir yn ystyriaethau pellach wrth bennu dewis gofodol dewisol. Mae'r holl ddewisiadau hyn yn rhagdybio y cedwir y dyraniadau tir cyflogaeth sy'n bod eisoes.

***Tabl 4: Deilliannau asesu dewisiadau gofodol***

| Amcanion y CDLlN | Arweinir gan TDdF | Ehangu Trefol | Ffocws ar Bentrefi | Hybrid |
|---|---|---|---|---|
| Economi a Chyflogaeth | | | | |
| Poblogaeth a Chymunedau | | | | |
| Iechyd a Lles | | | | |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | | | | |
| Trafnidiaeth a Symud | | | | |
| Adnoddau Naturiol | | | | |
| Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth | | | | |
| Amgylchedd Hanesyddol | | | | |
| Tirlun | | | | |
| Newid yn yr Hinsawdd | | | | |

**Cwestiynau:**

8 Pa un o'r dewisiadau hyn yn eich barn chi sydd fwyaf priodol, a pham?

9 A oes unrhyw ddosbarthiadau gofodol eraill y dylid eu hystyried, ac os felly, pam?

10 A oes unrhyw faterion eraill y dylid eu hystyried wrth asesu'r rhain?

[9] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11

[10] Dengys Adroddiad Monitro Blynyddol 2022 fod 93% o gartrefi newydd wedi eu cyflwyno ar dir TDdF

# 6. Sylfaen Dystiolaeth a Dweud Eich Dweud

## Tystiolaeth sy'n sail i'r papur hwn

- Tystiolaeth Ddemograffig a baratowyd gan Edge Analytics, Medi 2022
- Adolygiad Tir Cyflogaeth a baratowyd gan BE, Chwefror 2022

## Tystiolaeth sy'n Dod i'r Amlwg fel sail o wybodaeth i'r dewisiadau twf a gofodol

- Arfarnu Pentrefi
- Astudiaeth Capasiti Trefol
- Asesiad o'r Farchnad Dai

**Questions:**

11 A oes unrhyw ddarnau eraill o dystiolaeth a ddylai yn eich barn chi fod yn sail i ddatblygu'r strategaethau dewisiadau twf a gofodol dewisol?

12 A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech wneud am unrhyw beth yn y ddogfen ymgynghori hon?

## Have Your Say

Os hoffech rannu eich sylwadau ar y materion a drafodir yn y papur hwn, gallwch wneud hynny gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau a nodir yn y tabl isod. I weld y ffurflen sylwadau ar gyfer yr Opsiynau Twf a Gofodol a gwybodaeth bellach am y broses hon, ewch I https://www.newport.gov.uk/rldp.

Croesewir eich sylwadau naill ai'n Gymraeg neu Saesneg a dylent ddod i law heb fod yn hwyrach na **8 Mawrth 2023**.

| | |
|---|---|
| **E-bost:** | Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau drwy e-bost I LDP.consultation@newport.gov.uk |
| **Trwy'r post:** | Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i'r Cyngor, gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod -<br>Ymgynghoriad Twf ac Opsiynau Gofodol<br>Adran Polisi Cynllunio<br>Cyngor Dinas Casnewydd<br>Y Ganolfan Ddinesig<br>Casnewydd<br>NP20 4UR |
| **Manylion cyswllt:** | Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch y Tîm Polisi Cynllunio fel a ganlyn –<br>E-bost: LDP.consultation@newport.gov.uk<br>Ffôn: 01633 656 656 |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 1:** Mae 5ML a arweinir gan anheddau yn modelu'r effaith poblogaeth o dwf cyfartalog blynyddol mewn anheddau o +838 annedd y flwyddyn (ayf), ar sail hanes 5 mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2015/16–2019/20). Dewis twf uchel yw hwn, fyddai'n arwain at ofyniad blynyddol am 838 o dai newydd a 863 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 12,570 o dai newydd a 12,945 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLIN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer twf economaidd Casnewydd drwy gynnig ystod a dewis amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell, sy'n addasu i newid ac yn bodloni anghenion Casnewydd a thu hwnt, gan gefnogi gweithlu medrus, gwydn a chryf. | 1, 2, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel uchel o gyflogaeth ynghyd â thai.<br>• Mae cyfraddau uchel o dwf cyflogaeth yn adlewyrchu rôl genedlaethol bwysig Casnewydd a nodwyd gan Gymru'r Dyfodol.<br>• Mae'n debyg y byddai cyfradd uwch o gyflogaeth yn gofyn am i lawer o dir cyflogaeth gael ei gefnogi gan y Cynllun<br>• Gallai gefnogi swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig trwy ddatblygiadau newydd yn y mannau hyn. |
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Casnewydd, fel ardal dwf genedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedol ac anheddol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel uchel o dwf mewn tai, sy'n adlewyrchu rôl Casnewydd yn rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Byddai modd cefnogi amrywiaeth dda o wahanol fathau o dai a daliadaeth mewn nifer o leoliadau trwy'r dewis hwn.<br>• Mae'n debyg y bydd angen defnyddio safleoedd TDdF a chymunedau newydd ar ffiniau Casnewydd i gyflwyno twf ar y raddfa hon. |
| **Iechyd a Lles**<br>Gwella iechyd a lles drwy greu lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n hygyrch, iach ac actif, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 3,4 | • Gallai swm uchel o dai a swyddi newydd dan y dewis hwn wella'r gweithlu, cyflwyno sgiliau newydd neu gyfleoedd economaidd.<br>• Gellid elwa o'r dewis trwy gefnogi cyfleusterau iechyd, cymdeithasol, adloniant a hamdden sy'n bod eisoes a rhai newydd trwy fuddsoddi a defnyddwyr newydd. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLlN

| **Dewis 1:** Mae 5ML a arweinir gan anheddau yn modelu'r effaith poblogaeth o dwf cyfartalog blynyddol mewn anheddau o +838 annedd y flwyddyn (ayf), ar sail hanes 5 mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2015/16–2019/20). Dewis twf uchel yw hwn, fyddai'n arwain at ofyniad blynyddol am 838 o dai newydd a 863 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 12,570 o dai newydd a 12,945 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Creu mannau cadarnhaol o ansawdd, lle mae datblygiadau'n gwireddu'r manteision lluosog o greu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig, hyblyg, hygyrch a chydlynol lle mae diwylliant Casnewydd, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. | 1, 4, 5, 6 | 1, 3, 4 | • Mae'n debyg y bydd lefel uchel o dwf mewn tai a chyflogaeth yn golygu mwy o fuddsoddi mewn cyfleoedd ar draws y ddinas gyfan, gan gynnwys i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig.<br>• Mae'n debyg y bydd mwy o ddatblygiad yn arwain at fwy o amrywiaeth o fathau o dai, a fydd yn rhoi daliadaethau mwy amrywiol a maint tai i gwrdd â gwahanol anghenion.<br>• Gallai cynyddu twf dan y dewis hwn annog mwy o fusnesau yng Nghasnewydd a thrwy hynny gynyddu ystod y gwasanaethau sydd ar gael i'r trigolion. |
| **Trafnidiaeth a Symud**<br>Lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o opsiynau teithio cynaliadwy. | 1, 3, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Gallai arwain at ddatblygu mewn lleoliadau llai cynaliadwy os nad oes digon o dir ar gael mewn mannau gyda chysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy da, a hynny'n arwain at fwy o angen i deithio.<br>• Bydd twf uchel yn cynyddu'r galw ar seilwaith presennol y ffyrdd ac felly bydd angen buddsoddi mwy mewn dewisiadau addas eraill.<br>• Gallai mwy o gyfleoedd am fuddsoddi mewn darpariaeth newydd ddod i'r amlwg dan senario twf uchel. |
| **Adnoddau Naturiol**<br>Rheoli'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn gynaliadwy i fodloni anghenion cymunedau presennol a'r dyfodol, drwy sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gwell canlyniadau iechyd, a chreu economi gylchol lwyddiannus a thwf gwyrdd. | 1, 2, 3, 7 | 1, 2, 5 | • Dan ddewis twf uchel, mae'n debyg y bydd cynnydd mawr yn y galw am ddŵr a gallai hyn roi'r seilwaith presennol dan bwysau<br>• Bydd angen cryn dipyn o dir i gynnal y lefel hwn o dwf, a gallai hyn roi tirweddau naturiol a thir amaethyddol dan mewn perygl o gael eu datblygu.<br>• Mwy o gyfle i annog dulliau byw a datblygiadau cynaliadwy dan senario twf uchel, gan y bydd hyn yn fwy tebygol o ddenu mwy o fuddsoddiad ac arbenigedd o du'r cwmnïau sy'n adeiladu. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 1:** Mae 5ML a arweinir gan anheddau yn modelu'r effaith poblogaeth o dwf cyfartalog blynyddol mewn anheddau o +838 annedd y flwyddyn (ayf), ar sail hanes 5 mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2015/16–2019/20). Dewis twf uchel yw hwn, fyddai'n arwain at ofyniad blynyddol am 838 o dai newydd a 863 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 12,570 o dai newydd a 12,945 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br>Cynnal, cyfoethogi a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'r cyffiniau, gan gynnwys gwell gwytnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, a sicrhau ar yr un pryd fod manteision net yn cael eu hwyluso o'r datblygiad. | 2, 7 | 2, 5 | • Mae twf uchel mewn swyddi a thai dan y senario hon yn debyg o arwain at bwysau i ddod o hyd i safleoedd datblygu addas, a allai gael effaith negyddol ar safleoedd pwysig a dynodedig.<br>• Llawer o gyfle i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud y mwyaf o seilwaith gwyrdd a chreu neu wella rhwydweithiau ecolegol sy'n bod eisoes mewn ardaloedd trefol.<br>• Dylai mwy o ddatblygu gyd-fynd â chyfraniadau uwch gan ddatblygwyr, a gellid defnyddio'r arian i liniaru unrhyw effeithiau a ddaw yn sgil mwy o dwf, a chyfoethogi/gwarchod safleoedd sy'n ecolegol bwysig. |
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Diogelu, gwella a gwireddu gwerth asedau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig. | 5, 6, 7 | 4, 5 | • Gallai senarios twf uchel arwain at bwysau i gynyddu dwysedd datblygiadau neu eu lleoli mewn mannau a allai effeithio'n negyddol ar asedau/tirweddau hanesyddol.<br>• Gallai galw uchel am safleoedd helpu i ddwyn yn ôl i ddefnydd asedau hanesyddol diffaith a allai fel arall fod wedi cael eu hanwybyddu, a rhoi mwy o gymhelliant economaidd i ddatblygwyr adfer/gwella adeiladau rhestredig.<br>• Mae angen nifer sylweddol o swyddi dan y dewis hwn, ac y mae potensial i gynhyrchu cyfleoedd am waith yn y sector twristiaeth a threftadaeth. |
| **Tirlun**<br>Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig. | 2, 3, 6, 7 | 2, 5 | • Mae lefelau uchel o dwf yn debygol o roi pwysau ar y tir sydd ar gael o fewn ffiniau presennol trefi a phentrefi.<br>• Ansicr a fyddai modd rhoi lle i'r lefel hwn o dwf ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, felly mae'n anorfod y byddai pwysau ar dir glas y tu hwnt i'r dref, neu gymunedau gwledig. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLlN

| **Dewis 1:** Mae 5ML a arweinir gan anheddau yn modelu'r effaith poblogaeth o dwf cyfartalog blynyddol mewn anheddau o +838 annedd y flwyddyn (ayf), ar sail hanes 5 mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2015/16–2019/20). Dewis twf uchel yw hwn, fyddai'n arwain at ofyniad blynyddol am 838 o dai newydd a 863 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 12,570 o dai newydd a 12,945 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau, addasu a lliniaru. | 1, 2, 3, 4, 7 | 1, 2, 3, 5 | • Dan ddewis twf uchel, mae'n debygol y byddai angen mwy o dir ar gyfer y lefel hon o dai a swyddi. Mae'n debygol felly y bydd angen strategaethau lliniaru llifogydd a systemau draenio cynaliadwy ar gyfran uwch o ddatblygiadau i leihau effaith y risg o lifogydd ar gymunedau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes<br>• Mae lefelau uchel o dwf yn debyg o ddefnyddio'r holl dir sydd mewn lleoliadau mwy cynaliadwy sydd â chysylltiadau da, a thrwy hynny wthio datblygiadau i ardaloedd fydd yn cynyddu'r angen i deithio i gyrraedd ysgolion, swyddi a gwasanaethau.<br>• Gallai twf uchel mewn cyflogaeth dan y senario hon annog busnesau mwy gwyrdd i leoli yng Nghasnewydd, a sicrhau bod y ddinas mewn lle gwell i ateb y lefelau o swyddi ac uwch-sgilio fydd eu hangen i fynd i'r afael â newid hinsawdd. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

**Dewis 2:** Mae LlC-2018-POBUCH yn cyfateb i ragamcanion Llywodraeth Cymru yn 2018 am boblogaeth uchel, a ail-seiliwyd ar ffigwr poblogaeth Cyfrifiad 2021 ac sy'n ymgorffori rhagdybiaethau am ffrwythlondeb uchel, marwolaethau a mudo. Dyma'r dewis uchaf sy'n defnyddio rhagamcanion Llywodraeth Cymru a byddai'n arwain at ofyniad cyflogaeth sydd fymryn yn uwch na'r gofyniad am gartrefi newydd, sef gofyniad blynyddol am 632 o gartrefi newydd a 713 o swyddi newydd.
**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 9,480 o dai newydd a 10,695 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.**

| Amcan CDLlN | Dolenni i Nodau Llesiant | Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol | Dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer twf economaidd Casnewydd drwy gynnig ystod a dewis amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell, sy'n addasu i newid ac yn bodloni anghenion Casnewydd a thu hwnt, gan gefnogi gweithlu medrus, gwydn a chryf. | 1, 2, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel resymol uchel o gyflogaeth newydd, gyda nifer y swyddi newydd yn uwch na nifer y tai newydd.<br>• Mae cyfraddau uchel o dwf cyflogaeth yn adlewyrchu rôl genedlaethol bwysig Casnewydd a nodwyd gan Gymru'r Dyfodol.<br>• Mae'n debyg y byddai cyfradd uwch o gyflogaeth yn gofyn am i lawer o dir cyflogaeth gael ei gefnogi gan y Cynllun<br>• Gallai gefnogi swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig trwy ddatblygiadau newydd yn y mannau hyn. |
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Casnewydd, fel ardal dwf genedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedol ac anheddol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel uchel o dwf mewn tai, sy'n adlewyrchu rôl Casnewydd yn rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Byddai modd cefnogi amrywiaeth dda o wahanol fathau o dai a daliadaeth mewn nifer o leoliadau trwy'r dewis hwn.<br>• Mae'n debyg y bydd angen defnyddio safleoedd TDdF a chymunedau newydd ar ffiniau Casnewydd i gyflwyno twf ar y raddfa hon. |
| **Iechyd a Lles**<br>Gwella iechyd a lles drwy greu lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n hygyrch, iach ac actif, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 3,4 | • Gallai swm uchel o dai a swyddi newydd dan y dewis hwn wella'r gweithlu, cyflwyno sgiliau newydd neu gyfleoedd economaidd.<br>• Gellid elwa o'r dewis trwy gefnogi cyfleusterau iechyd, cymdeithasol, adloniant a hamdden sy'n bod eisoes a rhai newydd trwy fuddsoddi a defnyddwyr newydd. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 2:** Mae LlC-2018-POBUCH yn cyfateb i ragamcanion Llywodraeth Cymru yn 2018 am boblogaeth uchel, a ail-seiliwyd ar ffigwr poblogaeth Cyfrifiad 2021 ac sy'n ymgorffori rhagdybiaethau am ffrwythlondeb uchel, marwolaethau a mudo. Dyma'r dewis uchaf sy'n defnyddio rhagamcanion Llywodraeth Cymru a byddai'n arwain at ofyniad cyflogaeth sydd fymryn yn uwch na'r gofyniad am gartrefi newydd, sef gofyniad blynyddol am 632 o gartrefi newydd a 713 o swyddi newydd. **Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 9,480 o dai newydd a 10,695 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Creu mannau cadarnhaol o ansawdd, lle mae datblygiadau'n gwireddu'r manteision lluosog o greu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig, hyblyg, hygyrch a chydlynol lle mae diwylliant Casnewydd, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. | 1, 4, 5, 6 | 1, 3, 4 | • Mae'n debyg y bydd lefel uchel o dwf mewn tai a chyflogaeth yn arwain at fwy o gyfleoedd ledled y ddinas, gan gynnwys i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig.<br>• Mae'n debyg y bydd mwy o ddatblygiad yn arwain at fwy o amrywiaeth o fathau o dai, a fydd yn rhoi daliadaethau mwy amrywiol a maint tai i gwrdd â gwahanol anghenion.<br>• Gallai cyfradd uwch o gyflogaeth arwain at fwy o gyfleoedd am swyddi i'r trigolion, ond gallai arwain at fwy o gymudo i mewn os na allai'r gymuned bresennol ateb y galw am y llafur a'r sgiliau fydd eu hangen.<br>• Bydd mwy o gyflogaeth yn arwain at fwy o fusnesau yn gweithredu yng Nghasnewydd a gallai hyn gynyddu ystod y gwasanaethau sydd ar gael i'r trigolion. |
| **Trafnidiaeth a Symud**<br>Lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o opsiynau teithio cynaliadwy. | 1, 3, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Llai o bwysau datblygu am dai nac yn Newis 1, ond er hynny gallai Casnewydd ddal i weld prinder safleoedd addas yn enwedig ar gyfer cyflogaeth, a gallai hyn olygu lleoli'r swyddi hyn mewn ardaloedd heb gysylltiad cystal.<br>• Bydd twf, yn enwedig twf cyflogaeth dan y dewis hwn, yn rhoi mwy o bwysau ar seilwaith y ffyrdd ac felly bydd angen mwy o fuddsoddi mewn dewisiadau eraill cynaliadwy. |
| **Adnoddau Naturiol**<br>Rheoli'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn gynaliadwy i fodloni anghenion cymunedau presennol a'r dyfodol, drwy sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gwell canlyniadau iechyd, a chreu economi gylchol lwyddiannus a thwf gwyrdd. | 1, 2, 3, 7 | 1, 2, 5 | • Mae'r twf mewn cartrefi a swyddi yn uchel, felly mae mwy o ddŵr yn debyg o gael ei ddefnyddio, a gallai hyn roi pwysau ar y seilwaith presennol<br>• Bydd angen cryn dipyn o dir i gynnal y lefel hwn o dwf, a gallai hyn roi tirweddau naturiol a thir amaethyddol dan mewn perygl o gael eu datblygu.<br>• Mwy o gyfle i annog dulliau byw a datblygiadau cynaliadwy dan senario twf uchel, gan y bydd hyn yn fwy tebygol o ddenu mwy o fuddsoddiad ac arbenigedd o du'r cwmnïau sy'n adeiladu. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLlN

| **Dewis 2:** Mae LIC-2018-POBUCH yn cyfateb i ragamcanion Llywodraeth Cymru yn 2018 am boblogaeth uchel, a ail-seiliwyd ar ffigwr poblogaeth Cyfrifiad 2021 ac sy'n ymgorffori rhagdybiaethau am ffrwythlondeb uchel, marwolaethau a mudo. Dyma'r dewis uchaf sy'n defnyddio rhagamcanion Llywodraeth Cymru a byddai'n arwain at ofyniad cyflogaeth sydd fymryn yn uwch na'r gofyniad am gartrefi newydd, sef gofyniad blynyddol am 632 o gartrefi newydd a 713 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 9,480 o dai newydd a 10,695 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br>Cynnal, cyfoethogi a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'r cyffiniau, gan gynnwys gwell gwytnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, a sicrhau ar yr un pryd fod manteision net yn cael eu hwyluso o'r datblygiad. | 2, 7 | 2, 5 | • Mae'r lefel gymharol uchel o swyddi a thai fydd eu hangen dan y senario hon yn debyg o arwain at bwysau i ddod o hyd i safleoedd addas, a gallai hyn gael effaith negyddol ar safleoedd dynodedig, er y byddai'r pwysau hyn yn llai na than Ddewis1.<br>• Cyfleoedd i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud y mwyaf o seilwaith gwyrdd a chreu neu wella rhwydweithiau ecoleg sy'n bodoli mewn ardaloedd trefol.<br>• Potensial i ddefnyddio cyfraniadau cynllunio o ddatblygiadau newydd i liniaru effeithiau mwy o dwf a gwella/amddiffyn safleoedd ecolegol bwysig. |
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Diogelu, gwella a gwireddu gwerth asedau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig. | 5, 6, 7 | 4, 5 | • Gallai senarios twf uchel arwain at bwysau i gynyddu dwysedd datblygiadau neu eu lleoli mewn mannau a allai effeithio'n negyddol ar asedau/tirweddau hanesyddol.<br>• Gallai mwy o alw am ddatblygu helpu i ddwyn yn ôl i ddefnydd asedau hanesyddol diffaith a allai fel arall fod wedi cael eu hanwybyddu, a rhoi mwy o gymhelliant economaidd i ddatblygwyr adfer/gwella adeiladau rhestredig.<br>• Mae angen nifer sylweddol o swyddi dan y dewis hwn, ac y mae potensial i gynhyrchu cyfleoedd am waith yn y sector twristiaeth a threftadaeth. |
| **Tirlun**<br>Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig. | 2, 3, 6, 7 | 2, 5 | • Mae lefelau cymharol uchel o dwf yn debygol o roi pwysau ar argaeledd tir o fewn ffiniau presennol trefi a phentrefi, a gallai hyn arwain at newidiadau/estyniadau.<br>• Ansicr a fyddai modd rhoi lle i'r lefel hwn o dwf ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, felly mae'n anorfod y byddai pwysau ar dir glas y tu hwnt i'r dref, neu gymunedau gwledig. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 2:** Mae LIC-2018-POBUCH yn cyfateb i ragamcanion Llywodraeth Cymru yn 2018 am boblogaeth uchel, a ail-seiliwyd ar ffigwr poblogaeth Cyfrifiad 2021 ac sy'n ymgorffori rhagdybiaethau am ffrwythlondeb uchel, marwolaethau a mudo. Dyma'r dewis uchaf sy'n defnyddio rhagamcanion Llywodraeth Cymru a byddai'n arwain at ofyniad cyflogaeth sydd fymryn yn uwch na'r gofyniad am gartrefi newydd, sef gofyniad blynyddol am 632 o gartrefi newydd a 713 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 9,480 o dai newydd a 10,695 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau, addasu a lliniaru. | 1, 2, 3, 4, 7 | 1, 2, 3, 5 | • Lefel uchel o dwf sy'n debygol o fynnu cryn dipyn o dir ar gyfer datblygu tai a chyflogaeth. Mae'n debygol felly y bydd angen strategaethau lliniaru llifogydd a systemau draenio cynaliadwy ar rai o'r datblygiadau i leihau effaith y risg o lifogydd ar gymunedau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes<br>• Mae lefelau uchel o dwf mewn tai yn debygol o lenwi tir mewn lleoliadau â chysylltiadau da a mwy cynaliadwy, er bod hyn yn llai tebygol nag yn senario 1.<br>• Gallai twf uchel mewn cyflogaeth dan y senario hon annog busnesau mwy gwyrdd i leoli yng Nghasnewydd, a sicrhau bod y ddinas mewn lle gwell i ateb y lefelau o swyddi ac uwch-sgilio fydd eu hangen i fynd i'r afael â newid hinsawdd. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

**Dewis 3:** Mae 10ML a arweinir gan anheddau ym modelu'r effaith poblogaeth o dwf cyfartalog blynyddol mewn tai o +638 ayf, ar sail hanes 10mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2010/11-2019/20). Mae'r dewis hwn yn amlinellu cyfradd debyg o dwf mewn tai â Dewis 2, ond byddai'n cael ei baru â gofyniad is am gyflogaeth, fyddai'n arwain at ofyniad blynyddol am 638 o gartrefi newydd a 576 o swyddi newydd.

**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 9,570 o dai newydd a 8,640 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.**

| Amcan CDLlN | Dolenni i Nodau Llesiant | Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol | Dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer twf economaidd Casnewydd drwy gynnig ystod a dewis amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell, sy'n addasu i newid ac yn bodloni anghenion Casnewydd a thu hwnt, gan gefnogi gweithlu medrus, gwydn a chryf. | 1, 2, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel gymedrol o gyflogaeth newydd, gyda nifer y cartrefi newydd yn fwy na nifer y swyddi newydd.<br>• Er ei fod yn gymedrol, byddai graddfa'r twf yn cyfrannu ar rôl bwysig Casnewydd yn genedlaethol, fel y'i diffiniwyd gan Gymru'r Dyfodol.<br>• Swm da o dir cyflogaeth i'w gefnogi gan y cynllun.<br>• Gellid cefnogi swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig hefyd petai'r datblygiadau newydd yn cael ei ddosbarthu i'r lleoliadau hyn. |
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Casnewydd, fel ardal dwf genedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedol ac anheddol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel uchel o dwf mewn tai, sy'n adlewyrchu rôl Casnewydd yn rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Byddai modd cefnogi amrywiaeth dda o wahanol fathau o dai a daliadaeth mewn nifer o leoliadau trwy'r dewis hwn.<br>• Mae'n debyg y bydd angen defnyddio safleoedd TDdF a chymunedau newydd ar ffiniau Casnewydd i gyflwyno twf ar y raddfa hon. |
| **Iechyd a Lles**<br>Gwella iechyd a lles drwy greu lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n hygyrch, iach ac actif, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 3,4 | • Gallai swm uchel o dai a swyddi newydd dan y dewis hwn wella'r gweithlu, cyflwyno sgiliau newydd neu gyfleoedd economaidd.<br>• Gellid elwa o'r dewis trwy gefnogi cyfleusterau iechyd, cymdeithasol, adloniant a hamdden sy'n bod eisoes a rhai newydd trwy fuddsoddi a defnyddwyr newydd. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 3:** Mae 10ML a arweinir gan anheddau ym modelu'r effaith poblogaeth o dwf cyfartalog blynyddol mewn tai o +638 ayf, ar sail hanes 10mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2010/11-2019/20). Mae'r dewis hwn yn amlinellu cyfradd debyg o dwf mewn tai â Dewis 2, ond byddai'n cael ei baru â gofyniad is am gyflogaeth, fyddai'n arwain at ofyniad blynyddol am 638 o gartrefi newydd a 576 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 9,570 o dai newydd a 8,640 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLIN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Creu mannau cadarnhaol o ansawdd, lle mae datblygiadau'n gwireddu'r manteision lluosog o greu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig, hyblyg, hygyrch a chydlynol lle mae diwylliant Casnewydd, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. | 1, 4, 5, 6 | 1, 3, 4 | • Mae'n debyg y bydd lefel uchel o dwf mewn tai a chyflogaeth yn arwain at fwy o gyfleoedd ledled y ddinas, gan gynnwys i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig.<br>• Gallai lefel y datblygiad arwain at fwy o amrywiaeth o fathau o dai, fydd yn rhoi mwy o amrywiaeth daliadaeth a maint tai i gwrdd â gwahanol anghenion.<br>• Gallai mwy o dai na chyflogaeth gynyddu'r gystadleuaeth am waith gan y bydd llai o swyddi na phobl ar gael.<br>• Mae'n dal yn debyg y bydd tipyn go dda o addysg a hyfforddiant ar gael, er llai na than ddewisiadau 1 a 2 sydd â mwy o dwf mewn swyddi. |
| **Trafnidiaeth a Symud**<br>Lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o opsiynau teithio cynaliadwy. | 1, 3, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Potensial da i gyfeirio datblygiadau newydd i leoliadau gyda chysylltedd trafnidiaeth da neu gyfleoedd am wella.<br>• Gallai datblygiadau newydd roi hwb i fuddsoddiad mewn cludiant cyhoeddus a mesurau teithio llesol.<br>• Tra bod cyfradd y twf yn y dewis hwn yn debyg o fod yn haws i'w reoli nac yn Newis 1, bydd pwysau o hyd ar y seilwaith presennol. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 3:** Mae 10ML a arweinir gan anheddau ym modelu'r effaith poblogaeth o dwf cyfartalog blynyddol mewn tai o +638 ayf, ar sail hanes 10mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2010/11-2019/20). Mae'r dewis hwn yn amlinellu cyfradd debyg o dwf mewn tai â Dewis 2, ond byddai'n cael ei baru â gofyniad is am gyflogaeth, fyddai'n arwain at ofyniad blynyddol am 638 o gartrefi newydd a 576 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 9,570 o dai newydd a 8,640 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Adnoddau Naturiol**<br>Rheoli'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn gynaliadwy i fodloni anghenion cymunedau presennol a'r dyfodol, drwy sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gwell canlyniadau iechyd, a chreu economi gylchol lwyddiannus a thwf gwyrdd. | 1, 2, 3, 7 | 1, 2, 5 | • Bydd twf mawr yn nifer y cartrefi, felly mae'r defnydd domestig o ddŵr yn debygol o gynyddu a gallai hyn roi pwysau ar y seilwaith presennol.<br>• Bydd angen cryn dipyn o dir ar gyfer tai newydd a allai beryglu tirweddau naturiol a thir amaethyddol da oherwydd datblygiadau tai. Llai o broblem o ran tir cyflogaeth gan mai cymedrol yw'r cyfraddau twf.<br>• Mwy o gyfle i annog dulliau cynaliadwy o fyw a datblygu dan lefel resymol o dwf, gan fod hyn yn fwy tebygol o ddenu mwy o fuddsoddiad ac arbenigedd gan y cwmnïau sy'n adeiladu. |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br>Cynnal, cyfoethogi a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'r cyffiniau, gan gynnwys gwell gwytnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, a sicrhau ar yr un pryd fod manteision net yn cael eu hwyluso o'r datblygiad. | 2, 7 | 2, 5 | • Mae'r lefel gymharol uchel o swyddi a thai fydd eu hangen dan y senario hon yn debyg o arwain at bwysau i ddod o hyd i safleoedd addas, a gallai hyn gael effaith negyddol ar safleoedd dynodedig, er y byddai'r pwysau hyn yn llai na than Ddewis1.<br>• Cyfleoedd i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud y mwyaf o seilwaith gwyrdd a chreu neu wella rhwydweithiau ecoleg sy'n bodoli mewn ardaloedd trefol.<br>• Potensial i ddefnyddio cyfraniadau cynllunio o ddatblygiadau newydd i liniaru effeithiau mwy o dwf a gwella/amddiffyn safleoedd ecolegol bwysig.<br>• Bydd angen llai o dir ar gyfer swyddi newydd dan y dewis hwn, sy'n golygu y bydd llai o bwysau am safleoedd cyflogaeth newydd. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLlN

**Dewis 3:** Mae 10ML a arweinir gan anheddau ym modelu'r effaith poblogaeth o dwf cyfartalog blynyddol mewn tai o +638 ayf, ar sail hanes 10mlynedd o dai a gwblhawyd cyn COVID-19 yng Nghasnewydd (2010/11-2019/20). Mae'r dewis hwn yn amlinellu cyfradd debyg o dwf mewn tai â Dewis 2, ond byddai'n cael ei baru â gofyniad is am gyflogaeth, fyddai'n arwain at ofyniad blynyddol am 638 o gartrefi newydd a 576 o swyddi newydd.
**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 9,570 o dai newydd a 8,640 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.**

| Amcan CDLlN | Dolenni i Nodau Llesiant | Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol | Dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Diogelu, gwella a gwireddu gwerth asedau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig. | 5, 6, 7 | 4, 5 | • Gall senario o dwf gweddol uchel mewn tai arwain at bwysau i gynyddu dwysedd datblygiadau neu eu lleoli mewn ardaloedd a allai gael effaith negyddol ar asedau/tirweddau hanesyddol.<br>• Gallai mwy o alw am safleoedd helpu i ddwyn yn ôl i ddefnydd asedau hanesyddol diffaith a allai fel arall fod wedi cael eu hanwybyddu, a rhoi mwy o gymhelliant economaidd i ddatblygwyr adfer/gwella adeiladau rhestredig.<br>• Gallai swyddi a gynhyrchir dan y dewis hwn helpu i gynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth yn y sector twristiaeth a threftadaeth, er y gallai'r cyfleoedd fod yn gyfyngedig o gymharu â'r senarios twf cyflogaeth uwch. |
| **Tirlun**<br>Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig. | 2, 3, 6, 7 | 2, 5 | • Mae'r senario hon yn cynhyrchu lefelau cymharol uchel o dwf mewn tai, ond twf cymedrol mewn swyddi fel bod y galw am dir datblygu newydd yn debyg o fod yn is na than ddewisiadau 1 a 2, gan leihau'r tebygolrwydd yr effeithir yn negyddol ar dirweddau Casnewydd.<br>• Twf cymedrol mewn cyflogaeth yn debygol o gyd-fynd a chadw tirweddau dynodedig yn well. |
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau, addasu a lliniaru. | 1, 2, 3, 4, 7 | 1, 2, 3, 5 | • Lefel uchel o dwf sy'n debyg o alw am lawer o dir i wneud lle i ragamcanion am gyfleoedd tai a chyflogaeth. Mae'n debyg y bydd rhai o'r datblygiadau hyn yn gofyn am strategaethau lliniaru llifogydd a systemau draenio cynaliadwy i leihau effaith risg llifogydd ar gymunedau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes<br>• Mae lefelau uchel o dwf mewn tai yn debygol o lenwi tir mewn lleoliadau â chysylltiadau da a mwy cynaliadwy, er bod hyn yn llai tebygol nag yn senario 1.<br>• Gallai llai o dwf cyflogaeth dan y senario hon leihau'r cyfle o gwrdd â'r lefelau swyddi ac uwchsgilio fydd eu hangen i fynd i'r afael â newid hinsawdd, heb fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â diwydiannau gwyrdd newydd. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 4:** Mae LlC-2018-Prif yn cyfateb i Brif ragamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio data poblogaeth hanesyddol am 2001-2018. Mae Dewis 4 yn darparu am gyfran o dai i gyflogaeth sy'n debyg i Ddewis 2, gyda'r gofyniad am gyflogaeth hefyd yn uwch na thai yn y dewis hwn. Fodd bynnag, nid yw Dewis 4 yn ymgorffori rhagdybiaethau ac y mae'n dangos llai o boblogaeth, sy'n arwain at angen blynyddol am 530 o gartrefi newydd a 627 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 7,950 o dai newydd a 9,405 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer twf economaidd Casnewydd drwy gynnig ystod a dewis amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell, sy'n addasu i newid ac yn bodloni anghenion Casnewydd a thu hwnt, gan gefnogi gweithlu medrus, gwydn a chryf. | 1, 2, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel uchel o gyflogaeth newydd, gyda nifer y swyddi newydd yn fwy o dipyn na nifer y tai newydd.<br>• Byddai'r gyfradd twf cyflogaeth yn adlewyrchu rôl bwysig Casnewydd yn genedlaethol fel y'i diffiniwyd gan Gymru'r Dyfodol, ond nid yw'n debygol y byddai twf mewn tai yn arian at gyfraniad cadarnhaol tebyg tuag at y rôl hon a nodwyd.<br>• Mwy o dir cyflogaeth i'w gefnogi gan y cynllun.<br>• Gellid cael swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig trwy ddatblygiadau newydd yn y mannau hyn. |
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Casnewydd, fel ardal dwf genedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedol ac anheddol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel dda o dwf, ond heb wneud cymaint o gyfraniad at rôl Casnewydd yn rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Gellid cefnogi amrywiaeth dda o fathau o dai a daliadaethau trwy'r dewis hwn. Ni fyddai cyfleoedd i gyfeirio tai newydd tuag at fwy o leoliadau lle mae mwyaf eu hangen mor amlwg.<br>• Efallai y byddai angen defnyddio safleoedd TDdF a chymunedau newydd ar gyrion Casnewydd i gyflwyno twf ar y raddfa hon. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

**Dewis 4:** Mae LlC-2018-Prif yn cyfateb i Brif ragamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio data poblogaeth hanesyddol am 2001-2018. Mae Dewis 4 yn darparu am gyfran o dai i gyflogaeth sy'n debyg i Ddewis 2, gyda'r gofyniad am gyflogaeth hefyd yn uwch na thai yn y dewis hwn. Fodd bynnag, nid yw Dewis 4 yn ymgorffori rhagdybiaethau ac y mae'n dangos llai o boblogaeth, sy'n arwain at angen blynyddol am 530 o gartrefi newydd a 627 o swyddi newydd.
**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 7,950 o dai newydd a 9,405 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.**

| Amcan CDLlN | Dolenni i Nodau Llesiant | Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol | Dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Lles**<br>Gwella iechyd a lles drwy greu lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n hygyrch, iach ac actif, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 3,4 | • Gallai nifer o dai a swyddi newydd dan y dewis hwn wella'r gweithlu, cyflwyno sgiliau newydd neu gyfleoedd economaidd.<br>• Gallai'r dewis ddod â manteision o ran cefnogi cyfleusterau iechyd, cymdeithasol, adloniant a hamdden sy'n bod eisoes a rhai newydd trwy fuddsoddi a defnyddwyr newydd. |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Creu mannau cadarnhaol o ansawdd, lle mae datblygiadau'n gwireddu'r manteision lluosog o greu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig, hyblyg, hygyrch a chydlynol lle mae diwylliant Casnewydd, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. | 1, 4, 5, 6 | 1, 3, 4 | • Gallai'r gyfradd twf arwain at gyfleoedd newydd ledled y ddinas, gan gynnwys i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig.<br>• Gallai tai newydd dan y dewis hwn arwain at fwy o amrywiaeth o fathau o dai, fyd dyn rhoi ystod well o ddaliadaethau a maint anheddau i gwrdd â gwahanol anghenion demograffig. Ystyrir bod cyfleoedd dan y dewis hwn yn fwy cyfyngedig na'r rhai dan Ddewisiadau 1 a 2.<br>• Gallai cyfradd uwch o gyflogaeth arwain at fwy o gyfleoedd am swyddi i'r trigolion, ond gallai arwain at fwy o gymudo i mewn os na allai'r gymuned bresennol ateb y galw am y llafur a'r sgiliau fydd eu hangen.<br>• Bydd mwy o gyflogaeth yn arwain at fwy o fusnesau yn gweithredu yng Nghasnewydd a gallai hyn gynyddu ystod y gwasanaethau sydd ar gael i'r trigolion. |

| **Dewis 4:** Mae LlC-2018-Prif yn cyfateb i Brif ragamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio data poblogaeth hanesyddol am 2001-2018. Mae Dewis 4 yn darparu am gyfran o dai i gyflogaeth sy'n debyg i Ddewis 2, gyda'r gofyniad am gyflogaeth hefyd yn uwch na thai yn y dewis hwn. Fodd bynnag, nid yw Dewis 4 yn ymgorffori rhagdybiaethau ac y mae'n dangos llai o boblogaeth, sy'n arwain at angen blynyddol am 530 o gartrefi newydd a 627 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 7,950 o dai newydd a 9,405 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Trafnidiaeth a Symud**<br>Lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o opsiynau teithio cynaliadwy. | 1, 3, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Potensial am gyfran uwch o ddatblygiadau tai i'w cyfeirio tuag at leoliadau sydd eisoes â chysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy.<br>• Llawer llai o bwysau datblygu am dai na chyda Dewisiadau 1, 2 a 3.<br>• Cyfraddau twf cyflogaeth yn dal yn eithaf uchel ac felly fe allai Casnewydd weld prinder safleoedd cynaliadwy ar gyfer cyflogaeth.<br>• Bydd twf mewn swyddi yn cynyddu'r galw ar seilwaith y ffyrdd presennol, a allai arwain at fwy o dagfeydd ar adegau prysur.<br>• Llai o botensial am fuddsoddiad sylweddol mewn cludiant cyhoeddus i gynnal patrymau cymuno cynaliadwy. |
| **Adnoddau Naturiol**<br>Rheoli'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn gynaliadwy i fodloni anghenion cymunedau presennol a'r dyfodol, drwy sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gwell canlyniadau iechyd, a chreu economi gylchol lwyddiannus a thwf gwyrdd. | 1, 2, 3, 7 | 1, 2, 5 | • Mae swm y tir sydd ei angen ar gyfer tai newydd a safleoedd cyflogaeth yn haws i'w reoli na than y dewisiadau twf uwch, felly mae'n debyg y bydd llai o bwysau ar dirweddau naturiol a thir amaethyddol da<br>• Bydd twf mewn tai a swyddi yn dal i roi mwy o bwysau ar ddefnydd dŵr, felly bydd yn rhaid i'r rhwydwaith ymgorffori mwy o gapasiti. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLlN

| **Dewis 4:** Mae LlC-2018-Prif yn cyfateb i Brif ragamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio data poblogaeth hanesyddol am 2001-2018. Mae Dewis 4 yn darparu am gyfran o dai i gyflogaeth sy'n debyg i Ddewis 2, gyda'r gofyniad am gyflogaeth hefyd yn uwch na thai yn y dewis hwn. Fodd bynnag, nid yw Dewis 4 yn ymgorffori rhagdybiaethau ac y mae'n dangos llai o boblogaeth, sy'n arwain at angen blynyddol am 530 o gartrefi newydd a 627 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 7,950 o dai newydd a 9,405 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br>Cynnal, cyfoethogi a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'r cyffiniau, gan gynnwys gwell gwytnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, a sicrhau ar yr un pryd fod manteision net yn cael eu hwyluso o'r datblygiad. | 2, 7 | 2, 5 | • Mae'r swm sylweddol is o dir fydd ei angen ar gyfer tai dan y senario hon yn debyg o arwain at lai o bwysau i ddod o hyd i safleoedd datblygu addas na than y dewisiadau twf uwch, felly mae'n bosib bod yn fwy dethol a sicrhau bod y safleoedd a ddewisir yn gwarchod safleoedd ecolegol bwysig.<br>• Cyfleoedd i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud y mwyaf o seilwaith gwyrdd a chreu neu wella rhwydweithiau ecoleg sy'n bodoli mewn ardaloedd trefol.<br>• Mae twf is yn golygu llai o gyfraniadau cynllunio o ddatblygiadau newydd y gellid eu defnyddio i amddiffyn safleoedd ecolegol bwysig. |
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Diogelu, gwella a gwireddu gwerth asedau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig. | 5, 6, 7 | 4, 5 | • Mae llai o dwf mewn tai yn debygol o leihau'r angen i gynyddu dwysedd datblygu, neu ei leoli mewn mannau a allai gael effaith negyddol ar asedau/tirweddau hanesyddol.<br>• Mwy tebygol o allu amddiffyn ardaloedd cadwraeth hanesyddol a chyfeirio datblygiadau ymaith oddi wrth dirweddau sensitif, na than senario twf uwch. |
| **Tirlun**<br>Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig. | 2, 3, 6, 7 | 2, 5 | • Lefelau uchel o dwf am gyflogaeth, ond twf mwy cymedrol o ran tai, felly mae'r galw am safleoedd tai newydd yn debyg o fod yn is, gan leihau'r tebygolrwydd o effeithiau negyddol ar dirweddau Casnewydd.<br>• Gallai galw uchel am safleoedd cyflogaeth dan y senario hon olygu llenwi safleoedd yng nghanol y ddinas ac o bosib gynyddu'r galw am ganolfannau cyflogaeth newydd ar gyrion Casnewydd. |

Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLlN

| **Dewis 4:** Mae LlC-2018-Prif yn cyfateb i Brif ragamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio data poblogaeth hanesyddol am 2001-2018. Mae Dewis 4 yn darparu am gyfran o dai i gyflogaeth sy'n debyg i Ddewis 2, gyda'r gofyniad am gyflogaeth hefyd yn uwch na thai yn y dewis hwn. Fodd bynnag, nid yw Dewis 4 yn ymgorffori rhagdybiaethau ac y mae'n dangos llai o boblogaeth, sy'n arwain at angen blynyddol am 530 o gartrefi newydd a 627 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 7,950 o dai newydd a 9,405 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau, addasu a lliniaru. | 1, 2, 3, 4, 7 | 1, 2, 3, 5 | • Bydd angen llai o dai newydd dan y senario, hon, sy'n debygol o sicrhau y cyfyngir datblygiadau i ardaloedd sy'n llai tebygol o ddioddef llifogydd. Gallai hyn olygu llai o angen am strategaethau lliniaru llifogydd a systemau draenio cynaliadwy i leihau effaith risg llifogydd ar gymunedau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.<br>• Gallai twf uchel mewn cyflogaeth dan y senario hon annog busnesau mwy gwyrdd i leoli yng Nghasnewydd, a sicrhau bod y ddinas mewn lle gwell i ateb y lefelau o swyddi ac uwch-sgilio fydd eu hangen i fynd i'r afael â newid hinsawdd.<br>• Cyfleoedd i annog datblygiadau newydd cysylltiedig â chyflogaeth er mwyn ymgorffori mwy o fesurau carbon isel a lleihau effaith ar yr amgylchedd. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 5:** Mae PG-Tymor-hir yn defnyddio blwyddyn sylfaen SYG 2020 ac yn gweithio allan ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 19 mlynedd (2001/02–2019/20). Mae Dewis 5 yn rhoi gofyniad tai tebyg i Ddewis 4, ond gofyniad cyflogaeth llawer is. Canlyniad hyn yw gofyniad blynyddol am 540 o gartrefi newydd a 448 o swyddi newydd. **Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 8,100 o dai newydd a 6,720 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLIN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer twf economaidd Casnewydd drwy gynnig ystod a dewis amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell, sy'n addasu i newid ac yn bodloni anghenion Casnewydd a thu hwnt, gan gefnogi gweithlu medrus, gwydn a chryf. | 1, 2, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel is o gyflogaeth newydd, gyda nifer y cartrefi newydd yn fwy na nifer o swyddi newydd o gryn dipyn.<br>• Byddai cyfradd twf mewn cyflogaeth yn cyfrannu llai at rôl genedlaethol bwysig Casnewydd a nodwyd gan Gymru'r Dyfodol. Byddai gan dwf tai gyfraniad mwy cadarnhaol at y rôl hon fel rhan o hybu'r economi trwy fwy o boblogaeth a manteision tymor-byr adeiladu.<br>• Byddai gofyniad is am gyflogaeth fwy na thebyg yn galw am lai o dir cyflogaeth i'w gefnogi gan y Cynllun.<br>• Nid yw chwaith yn debygol o gefnogi swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig, oni fyddai datblygiadau newydd yn cael eu cyfeirio i'r ardaloedd hynny. |
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Casnewydd, fel ardal dwf genedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedol ac anheddol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel dda o dwf, ond heb wneud cymaint o gyfraniad at rôl Casnewydd yn rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Gellid cefnogi amrywiaeth dda o fathau o dai a daliadaethau trwy'r dewis hwn. Ni fyddai cyfleoedd i gyfeirio tai newydd tuag at fwy o leoliadau lle mae mwyaf eu hangen mor amlwg.<br>• Efallai y byddai angen defnyddio safleoedd TDdF a chymunedau newydd ar gyrion Casnewydd i gyflwyno twf ar y raddfa hon. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

**Dewis 5:** Mae PG-Tymor-hir yn defnyddio blwyddyn sylfaen SYG 2020 ac yn gweithio allan ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 19 mlynedd (2001/02–2019/20). Mae Dewis 5 yn rhoi gofyniad tai tebyg i Ddewis 4, ond gofyniad cyflogaeth llawer is. Canlyniad hyn yw gofyniad blynyddol am 540 o gartrefi newydd a 448 o swyddi newydd.
**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 8,100 o dai newydd a 6,720 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.**

| Amcan CDLlN | Dolenni i Nodau Llesiant | Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol | Dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Lles**<br>Gwella iechyd a lles drwy greu lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n hygyrch, iach ac actif, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 3,4 | • Gallai nifer o dai a swyddi newydd dan y dewis hwn wella'r gweithlu, cyflwyno sgiliau newydd neu gyfleoedd economaidd.<br>• Gallai'r dewis ddod â manteision o ran cefnogi cyfleusterau iechyd, cymdeithasol, adloniant a hamdden sy'n bod eisoes a rhai newydd trwy fuddsoddi a defnyddwyr newydd. |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Creu mannau cadarnhaol o ansawdd, lle mae datblygiadau'n gwireddu'r manteision lluosog o greu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig, hyblyg, hygyrch a chydlynol lle mae diwylliant Casnewydd, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. | 1, 4, 5, 6 | 1, 3, 4 | • Mae'n debyg y bydd twf cymedrol mewn tai a chyflogaeth yn arwain at fwy o ddatblygiadau a chyfleoedd ar draws y ddinas gyfan, gan gynnwys i bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig.<br>• Mae'n debyg y bydd datblygiadau newydd yn arwain at fwy o amrywiaeth o fathau o dai, a fydd yn rhoi daliadaethau mwy amrywiol a maint tai i gwrdd â gwahanol anghenion.<br>• Os bydd y galw am dai yn uwch na thwf cyflogaeth, mae hyn yn debygol o olygu y bydd llai o swyddi ar gael i bawb, ac yn cynyddu cystadleuaeth am waith, a allai waethygu anghydraddoldebau sy'n bod eisoes.<br>• Mae twf cymedrol yn debyg o olygu mwy o gyfle i ddewis lleoliadau mwy cynaliadwy ar gyfer tai a safleoedd cyflogaeth newydd. |
| **Trafnidiaeth a Symud**<br>Lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o opsiynau teithio cynaliadwy. | 1, 3, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Mae twf cymedrol mewn cartrefi a swyddi yn rhoi cyfle i gynyddu dwysedd tai a chreu cymdogaethau agosach at ei gilydd.<br>• Mwy o gyfle i flaenoriaethu safleoedd sydd wedi eu cysylltu'n dda gan drafnidiaeth gynaliadwy i leihau'r angen i deithio.<br>• Bydd angen seilwaith i hwyluso twf, er bod hyn yn haws i'w reoli na than ddewisiadau twf uwch. Fodd bynnag, gall cyfleoedd am fuddsoddi fod yn fwy cyfyngedig. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 5:** Mae PG-Tymor-hir yn defnyddio blwyddyn sylfaen SYG 2020 ac yn gweithio allan ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 19 mlynedd (2001/02–2019/20). Mae Dewis 5 yn rhoi gofyniad tai tebyg i Ddewis 4, ond gofyniad cyflogaeth llawer is. Canlyniad hyn yw gofyniad blynyddol am 540 o gartrefi newydd a 448 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 8,100 o dai newydd a 6,720 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Adnoddau Naturiol**<br>Rheoli'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn gynaliadwy i fodloni anghenion cymunedau presennol a'r dyfodol, drwy sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gwell canlyniadau iechyd, a chreu economi gylchol lwyddiannus a thwf gwyrdd. | 1, 2, 3, 7 | 1, 2, 5 | • Mae swm y tir sydd ei angen ar gyfer tai newydd a safleoedd cyflogaeth yn haws i'w reoli na than y dewisiadau twf uwch, felly mae'n debyg y bydd llai o bwysau ar dirweddau naturiol a thir amaethyddol da<br>• Bydd twf mewn tai a swyddi yn dal i roi mwy o bwysau ar ddefnydd dŵr, felly bydd yn rhaid i'r rhwydwaith ymgorffori mwy o gapasiti. |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br>Cynnal, cyfoethogi a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'r cyffiniau, gan gynnwys gwell gwytnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, a sicrhau ar yr un pryd fod manteision net yn cael eu hwyluso o'r datblygiad. | 2, 7 | 2, 5 | • Mae twf is yn golygu llai o bwysau i ddod o hyd i safleoedd datblygu addas, felly mae modd bod yn fwy dethol a sicrhau bod y safleoedd a ddewisir yn gwarchod safleoedd ecolegol bwysig.<br>• Cyfleoedd i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud y mwyaf o seilwaith gwyrdd a chreu neu wella rhwydweithiau ecoleg sy'n bodoli mewn ardaloedd trefol.<br>• Mae angen sylweddol is am dir ar gyfer swyddi newydd dan y dewis hwn yn golygu llai o bwysau am safleoedd cyflogaeth newydd. |
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Diogelu, gwella a gwireddu gwerth asedau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig. | 5, 6, 7 | 4, 5 | • Mae twf is mewn tai yn debyg o leihau pwysau i gynyddu dwysedd datblygiadau neu eu lleoli mewn ardaloedd a allai effeithio'n negyddol ar asedau/tirweddau hanesyddol.<br>• Mwy tebygol o allu amddiffyn ardaloedd cadwraeth hanesyddol a chyfeirio datblygiadau ymaith oddi wrth dirweddau sensitif, na than senario twf uwch.<br>• Gallai llai o dwf mewn swyddi olygu llai o gyfleoedd i ehangu sectorau twristiaeth a threftadaeth a fyddai'n rhoi cyfleoedd economaidd i Gasnewydd. |

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 5:** Mae PG-Tymor-hir yn defnyddio blwyddyn sylfaen SYG 2020 ac yn gweithio allan ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o 19 mlynedd (2001/02–2019/20). Mae Dewis 5 yn rhoi gofyniad tai tebyg i Ddewis 4, ond gofyniad cyflogaeth llawer is. Canlyniad hyn yw gofyniad blynyddol am 540 o gartrefi newydd a 448 o swyddi newydd.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 8,100 o dai newydd a 6,720 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Tirlun**<br>Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig. | 2, 3, 6, 7 | 2, 5 | • Mae twf cymharol is mewn tai a chyflogaeth yn debygol o leihau'r galw am safleoedd datblygu newydd, gan roi mwy o gyfle felly i'w lleoli mewn ardaloedd sy'n lleihau'r effaith ar dirweddau dynodedig Casnewydd. |
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau, addasu a lliniaru. | 1, 2, 3, 4, 7 | 1, 2, 3, 5 | • Bydd angen nifer sylweddol is o dai newydd dan y senario hon, sy'n debygol o sicrhau y cyfyngir datblygiadau i ardaloedd sy'n llai tebygol o ddioddef llifogydd. Gallai hyn olygu llai o angen am strategaethau lliniaru llifogydd a systemau draenio cynaliadwy i leihau effaith risg llifogydd ar gymunedau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.<br>• Cyfleoedd i annog datblygiadau newydd cysylltiedig â chyflogaeth a thai i ymgorffori mwy o fesurau carbon isel a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.<br>• Gallai llai o dwf cyflogaeth dan y senario hon leihau'r siawns o gwrdd â'r lefelau o swyddi ac uwchsgilio fydd eu hangen i fynd i'r afael a newid hinsawdd, a pheidio â manteisio'n llawn ar y cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â datblygu diwydiannau gwyrdd newydd. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

**Dewis 6:** Mae Ymgodi OE+D&I a arweinir gan gyflogaeth yn modelu effaith twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog o +389 y flwyddyn dros gyfnod y cynllun, gydag ymgodiad yn cael ei osod ar ragolwg economaidd OE seiliedig ar ragamcanion cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol bargen ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd (DRC). Er bod y dewis hwn yn ystyried yn uniongyrchol ystyriaethau polisi ac yn cynnwys ymgodiad i adlewyrchu bargen ddinesig DRC, mae rhagolygon cyflogaeth Oxford Economics yn darparu am ddewis twf is, er mai hwn yw'r uchaf o'r senarios a arweinir gan gyflogaeth. Y canlyniad yw gofyniad blynyddol cyfartalog am 507 o gartrefi newydd a 389 o swyddi.
**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 7,605 o dai newydd a 5,835 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.**

| Amcan CDLlN | Dolenni i Nodau Llesiant | Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol | Dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer twf economaidd Casnewydd drwy gynnig ystod a dewis amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell, sy'n addasu i newid ac yn bodloni anghenion Casnewydd a thu hwnt, gan gefnogi gweithlu medrus, gwydn a chryf. | 1, 2, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel is o gyflogaeth newydd, gyda nifer y cartrefi newydd yn fwy na nifer o swyddi newydd o gryn dipyn.<br>• Byddai cyfradd twf cyflogaeth yn cyfrannu llai tuag at rôl genedlaethol bwysig Casnewydd a ddiffiniwyd gan Gymru'r Dyfodol. Byddai twf mewn tai yn cyfrannu'n fwy cadarnhaol at y rôl hon a nodwyd fel rhan o hybu'r economi trwy fwy o boblogaeth a manteision tymor-byr adeiladu. Fodd bynnag, cymedrol yn unig yw lefel y twf mewn tai yn y dewis hwn, ac y mae'r cyfraniad cyffredinol felly yn gyfyngedig.<br>• Byddai gofyniad is am gyflogaeth fwy na thebyg yn galw am lai o dir cyflogaeth i'w gefnogi gan y Cynllun.<br>• Nid yw chwaith yn debygol o gefnogi swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig, oni fyddai datblygiadau newydd yn cael eu cyfeirio i'r ardaloedd hynny. |
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Casnewydd, fel ardal dwf genedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedol ac anheddol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn cefnogi lefel dda o dwf, ond heb wneud cymaint o gyfraniad at rôl Casnewydd yn rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Gellid cefnogi amrywiaeth dda o fathau o dai a daliadaethau trwy'r dewis hwn. Ni fyddai cyfleoedd i gyfeirio tai newydd tuag at fwy o leoliadau lle mae mwyaf eu hangen mor amlwg.<br>• Efallai y byddai angen defnyddio safleoedd TDdF a chymunedau newydd ar gyrion Casnewydd i gyflwyno twf ar y raddfa hon. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLlN

| **Dewis 6:** Mae Ymgodi OE+D&I a arweinir gan gyflogaeth yn modelu effaith twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog o +389 y flwyddyn dros gyfnod y cynllun, gydag ymgodiad yn cael ei osod ar ragolwg economaidd OE seiliedig ar ragamcanion cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol bargen ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd (DRC). Er bod y dewis hwn yn ystyried yn uniongyrchol ystyriaethau polisi ac yn cynnwys ymgodiad i adlewyrchu bargen ddinesig DRC, mae rhagolygon cyflogaeth Oxford Economics yn darparu am ddewis twf is, er mai hwn yw'r uchaf o'r senarios a arweinir gan gyflogaeth. Y canlyniad yw gofyniad blynyddol cyfartalog am 507 o gartrefi newydd a 389 o swyddi. **Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 7,605 o dai newydd a 5,835 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Iechyd a Lles**<br>Gwella iechyd a lles drwy greu lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n hygyrch, iach ac actif, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 3,4 | • Gallai nifer o dai a swyddi newydd dan y dewis hwn wella'r gweithlu, cyflwyno sgiliau newydd neu gyfleoedd economaidd.<br>• Gallai'r dewis ddod â manteision o ran cefnogi cyfleusterau iechyd, cymdeithasol, adloniant a hamdden sy'n bod eisoes a rhai newydd trwy fuddsoddi a defnyddwyr newydd. |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Creu mannau cadarnhaol o ansawdd, lle mae datblygiadau'n gwireddu'r manteision lluosog o greu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig, hyblyg, hygyrch a chydlynol lle mae diwylliant Casnewydd, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. | 1, 4, 5, 6 | 1, 3, 4 | • Llai o gyfleoedd am swyddi newydd dan y dewis hwn, ar waethaf y ffaith fod lefel cymedrol o dwf mewn tai yn debygol o waethygu'r problemau amddifadedd ac anghydraddoldeb presennol, gan y byddai llai o swyddi ar gael i bobl.<br>• Mae twf is mewn cyflogaeth yn debygol o arwain at lai o gyfleoedd am addysg a hyfforddiant newydd.<br>• Mae tai newydd yn debygol o ddal i roi mwy o gymysgedd o fathau o anheddau a fyddai'n gwella cynhwysiant. |
| **Trafnidiaeth a Symud**<br>Lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o opsiynau teithio cynaliadwy. | 1, 3, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Mwy o gyfle i flaenoriaethau safleoedd gyda chysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy eisoes er mwyn lleihau'r angen i deithio, yn enwedig i safleoedd cyflogaeth gan fod y gyfradd dwf yma'n is.<br>• Mae'n debyg y daw pwysau a gwelliannau i'r seilwaith, er y bydd y rhain yn haws i'w rheoli na than y dewisiadau twf uwch.<br>• Mae cyfleoedd am fuddsoddi mewn darpariaeth trafnidiaeth cynaliadwy gwell neu newydd trwy ddatblygiadau newydd yn fwy cyfyngedig, ond gallant ddod i'r amlwg. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| **Dewis 6:** Mae Ymgodi OE+D&I a arweinir gan gyflogaeth yn modelu effaith twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog o +389 y flwyddyn dros gyfnod y cynllun, gydag ymgodiad yn cael ei osod ar ragolwg economaidd OE seiliedig ar ragamcanion cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol bargen ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd (DRC). Er bod y dewis hwn yn ystyried yn uniongyrchol ystyriaethau polisi ac yn cynnwys ymgodiad i adlewyrchu bargen ddinesig DRC, mae rhagolygon cyflogaeth Oxford Economics yn darparu am ddewis twf is, er mai hwn yw'r uchaf o'r senarios a arweinir gan gyflogaeth. Y canlyniad yw gofyniad blynyddol cyfartalog am 507 o gartrefi newydd a 389 o swyddi.<br>**Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 7,605 o dai newydd a 5,835 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Adnoddau Naturiol**<br>Rheoli'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn gynaliadwy i fodloni anghenion cymunedau presennol a'r dyfodol, drwy sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gwell canlyniadau iechyd, a chreu economi gylchol lwyddiannus a thwf gwyrdd. | 1, 2, 3, 7 | 1, 2, 5 | • Mae swm y tir sydd ei angen ar gyfer tai newydd a safleoedd cyflogaeth yn haws i'w reoli na than y dewisiadau twf uwch, felly mae'n debyg y bydd llai o bwysau ar dirweddau naturiol a thir amaethyddol da<br>• Bydd twf mewn tai a swyddi yn dal i roi mwy o bwysau ar ddefnydd dŵr, felly bydd yn rhaid i'r rhwydwaith ymgorffori mwy o gapasiti.<br>• Mae twf is yn nifer y tai a'r swyddi sydd eu hangen yn golygu, dan y senario hon, fod yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn fwy tebygol o gael eu gwarchod na chyda'r dewisiadau eraill. |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br>Cynnal, cyfoethogi a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'r cyffiniau, gan gynnwys gwell gwytnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, a sicrhau ar yr un pryd fod manteision net yn cael eu hwyluso o'r datblygiad. | 2, 7 | 2, 5 | • Mae modd bod yn fwy dethol dan y dewis twf is hwn, a sicrhau bod y safleoedd a ddewisir yn gwarchod safleoedd sy'n ecolegol bwysig.<br>• Cyfleoedd i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud y mwyaf o seilwaith gwyrdd a chreu neu wella rhwydweithiau ecoleg sy'n bodoli mewn ardaloedd trefol.<br>• Llai o arian o gyfraniadau cynllunio dan y senario twf isel hon i liniaru unrhyw effeithiau twf a gwella/gwarchod safleoedd ecolegol bwysig.<br>• Mae llai o dir fydd ei angen am swyddi newydd dan y dewis hwn yn golygu llai o bwysau am safleoedd cyflogaeth newydd. |
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Diogelu, gwella a gwireddu gwerth asedau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig. | 5, 6, 7 | 4, 5 | • Mae twf is mewn tai yn debyg o leihau pwysau i gynyddu dwysedd datblygiadau neu eu lleoli mewn ardaloedd a allai effeithio'n negyddol ar asedau/tirweddau hanesyddol.<br>• Mwy tebygol o allu amddiffyn ardaloedd cadwraeth hanesyddol a chyfeirio datblygiadau ymaith oddi wrth dirweddau sensitif, na than senario twf uwch.<br>• Gall llai o dwf mewn swyddi olygu llai o gyfleoedd i ehangu'r sectorau twristiaeth a threftadaeth fyddai'n rhoi cyfleoedd economaidd i Gasnewydd. |

# Atodiad A

# Asesu Dewisiadau Twf yn Erbyn y CDLIN

| Amcan CDLlN | Dolenni i Nodau Llesiant | Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol | Dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Dewis 6:** Mae Ymgodi OE+D&I a arweinir gan gyflogaeth yn modelu effaith twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog o +389 y flwyddyn dros gyfnod y cynllun, gydag ymgodiad yn cael ei osod ar ragolwg economaidd OE seiliedig ar ragamcanion cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol bargen ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd (DRC). Er bod y dewis hwn yn ystyried yn uniongyrchol ystyriaethau polisi ac yn cynnwys ymgodiad i adlewyrchu bargen ddinesig DRC, mae rhagolygon cyflogaeth Oxford Economics yn darparu am ddewis twf is, er mai hwn yw'r uchaf o'r senarios a arweinir gan gyflogaeth. Y canlyniad yw gofyniad blynyddol cyfartalog am 507 o gartrefi newydd a 389 o swyddi. **Byddai'r gofyniad cyffredinol yn cyfateb i 7,605 o dai newydd a 5,835 o swyddi newydd dros y cyfnod 2021-2036.** | | | |
| **Tirlun**<br>Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig. | 2, 3, 6, 7 | 2, 5 | • Mae twf cymharol is mewn tai a chyflogaeth yn debygol o leihau'r galw am safleoedd datblygu newydd, gan roi mwy o gyfle felly i'w lleoli mewn ardaloedd sy'n lleihau'r effaith ar dirweddau dynodedig Casnewydd.<br>• Byddai mod cynnwys cyfran uwch o safleoedd cyflogaeth yng nghanol y ddinas, gan mai'r lefel hon o dwf mewn swyddi yw'r isaf o'r holl senarios. |
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau, addasu a lliniaru. | 1, 2, 3, 4, 7 | 1, 2, 3, 5 | • Bydd angen nifer haws ei reoli o gartrefi newydd dan y senario hon, sy'n debyg o olygu bod datblygu wedi ei gyfyngu i ardaloedd sy'n llai tebygol o ddioddef llifogydd. O bosib felly, bydd llai o angen strategaethau lliniaru llifogydd a systemau draenio cynaliadwy i leihau effaith risg llifogydd ar gymunedau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.<br>• Cyfleoedd I annog datblygiadau Newydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a thai I ymgorffori mwy o fesurau carbon isel a lleihau effaith lleihau effaith amgylcheddol.<br>• Gallai llai o dwf cyflogaeth dan y senario hon leihau'r siawns o gwrdd â'r lefelau o swyddi ac uwchsgilio fydd eu hangen i fynd i'r afael a newid hinsawdd, a pheidio â manteisio'n llawn ar y cyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â datblygu diwydiannau gwyrdd newydd. |

# Atodiad B


# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

## Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol (TDdF) Arweinir

Byddai agwedd a arweinir gan TDdF yn golygu parhad o'r strategaeth ofodol bresennol, gan ganolbwyntio twf ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Byddai'n galw am ddatblygiadau dwysedd uchel o fewn ffiniau trefol a byddai angen edrych i mewn i ail-ddefnyddio tir cyflogaeth neu ddiwydiannol sy'n dirywio naill ai ar gyfer tai neu fathau newydd o gyflogaeth. Dan y dewis hwn, dylid osgoi defnyddio tir glas i'r graddau y bo hynny'n bosib.



# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLlN

| **Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol (TDdF) Arweinir** - Byddai agwedd a arweinir gan TDdF yn golygu parhad o'r strategaeth ofodol bresennol, gan ganolbwyntio twf ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Byddai'n galw am ddatblygiadau dwysedd uchel o fewn ffiniau trefol a byddai angen edrych i mewn i ail-ddefnyddio tir cyflogaeth neu ddiwydiannol sy'n dirywio naill ai ar gyfer tai neu fathau newydd o gyflogaeth. Dan y dewis hwn, dylid osgoi defnyddio tir glas i'r graddau y bo hynny'n bosib. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer twf economaidd Casnewydd drwy gynnig ystod a dewis amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell, sy'n addasu i newid ac yn bodloni anghenion Casnewydd a thu hwnt, gan gefnogi gweithlu medrus, gwydn a chryf. | 1, 2, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'n asio gyda'r canolbwynt polisi cenedlaethol am ddatblygu TDdF a chanol trefi i ddechrau.<br>• Gan gydnabod dynodi Casnewydd fel Ardal Twf Genedlaethol, gallai'r dewis hwn gyfyngu ar y gallu i gyflawni'r rôl strategol hon os nad oes digon o safleoedd addas.<br>• Hyn a hyn o dir TDdF sydd, ac o'r herwydd efallai na fydd yn cwrdd â'r rhagamcanion am anghenion ar draws 15 mlynedd lawn y cynllun.<br>• Gallai'r dewis helpu i adfywio tir a danddefnyddir ar hyn o bryd neu sydd wedi adfeilio.<br>• Mae angen mwy o waith i bennu pa ardaloedd y gellid eu defnyddio mewn ffyrdd eraill yn dilyn tystiolaeth o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth a'r Astudiaeth Capasiti Trefol. |
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Casnewydd, fel ardal dwf genedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedol ac anheddol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 1, 2, 3, 4 | • Mae ail-ddefnyddio safleoedd TDdF y tu mewn i'r ffiniau trefol yn cefnogi patrwm o aneddfannau cryno sy'n canoli datblygiadau yn yr ardaloedd sydd â mwyaf o fynediad at gyfleusterau /gwasanaethau (h.y. cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a seilwaith ffisegol).<br>• Efallai na fydd modd i dai newydd gael eu dosbarthu'n wastad ar hyd y ddinas. Gallai hyn olygu y byddai rhai ardaloedd yn elwa o'r twf hwn a'r cyfleusterau /gwasanaethau cysylltiedig, ac na fydd eraill yn elwa.<br>• Gall pwysau i ddarparu seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol newydd neu wedi eu huwchraddio sydd yn angenrheidiol i gefnogi tai newydd ddigwydd yn anwastad o gwmpas y ddinas, neu efallai na fydd modd gwneud hyn oherwydd cyfyngiadau yn yr ardaloedd sefydledig.<br>• Fe all fod cyfyngiad hefyd ar amrywiaeth y mathau o dai (h.y. tai ar wahân, tair par, fflatiau, stiwdios, 2-wely+, etc.) y gellir eu cyflawni gan gydnabod y cyfyngiadau hyfywedd ariannol o ran defnyddio tir TDdF o fewn ffiniau anheddau presennol. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

| **Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol (TDdF) Arweinir** - Byddai agwedd a arweinir gan TDdF yn golygu parhad o'r strategaeth ofodol bresennol, gan ganolbwyntio twf ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Byddai'n galw am ddatblygiadau dwysedd uchel o fewn ffiniau trefol a byddai angen edrych i mewn i ail-ddefnyddio tir cyflogaeth neu ddiwydiannol sy'n dirywio naill ai ar gyfer tai neu fathau newydd o gyflogaeth. Dan y dewis hwn, dylid osgoi defnyddio tir glas i'r graddau y bo hynny'n bosib. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Iechyd a Lles**<br>Gwella iechyd a lles drwy greu lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n hygyrch, iach ac actif, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 3,4 | • Gallai canolbwyntio twf newydd ar dir TDdF o fewn ffiniau anheddau presennol gael effaith andwyol ar yr ardaloedd rheoli ansawdd aer cyfredol os yw datblygiadau newydd yn dibynnu ar geir.<br>• Gall cynyddu dwysedd ac amrywiaeth y mathau o dai o fewn ffiniau anheddau presennol beri bod mwy o ardaloedd ar gael ledled y ddinas ar gael, gan olygu bod llai o gyfleoedd i droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ddigwydd.<br>• Gallai gyfrannu'n gadarnhaol at wella cyfleusterau sy'n bod eisoes ac yn hyrwyddo dulliau llesol o fyw (h.y. parciau, rhwydweithio teithio llesol, cyfleusterau a gwasanaethau dyddiol o fewn pellter cerdded/beicio) o fewn ffin yn anheddfan bresennol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn digwydd yn wastad ar draws y ddinas, yn dibynnu ar y safleoedd TDdF sydd ar gael. |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Creu mannau cadarnhaol o ansawdd, lle mae datblygiadau'n gwireddu'r manteision lluosog o greu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig, hyblyg, hygyrch a chydlynol lle mae diwylliant Casnewydd, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. | 1, 4, 5, 6 | 1, 3, 4 | • Manteision cyfeirio datblygiadau yn agos iawn at gyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau beunyddiol yn gyffredinol.<br>• Potensial i deilwrio datblygiadau i gwrdd ag anghenion penodol mewn rhai ardaloedd ledled y ddinas.<br>• Gallai gyfrannu'n gadarnhaol at wella cyfleusterau sy'n bod eisoes ac yn hyrwyddo dulliau llesol o fyw (h.y. parciau, rhwydweithio teithio llesol, cyfleusterau a gwasanaethau dyddiol o fewn pellter cerdded/beicio) o fewn ffin yn anheddfan bresennol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn digwydd yn wastad ar draws y ddinas, yn dibynnu ar y safleoedd TDdF sydd ar gael. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

| **Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol (TDdF) Arweinir** - Byddai agwedd a arweinir gan TDdF yn golygu parhad o'r strategaeth ofodol bresennol, gan ganolbwyntio twf ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Byddai'n galw am ddatblygiadau dwysedd uchel o fewn ffiniau trefol a byddai angen edrych i mewn i ail-ddefnyddio tir cyflogaeth neu ddiwydiannol sy'n dirywio naill ai ar gyfer tai neu fathau newydd o gyflogaeth. Dan y dewis hwn, dylid osgoi defnyddio tir glas i'r graddau y bo hynny'n bosib. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Trafnidiaeth a Symud**<br>Lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o opsiynau teithio cynaliadwy. | 1, 3, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Cefnogi patrwm aneddfannau cryno sy'n canoli datblygiadau yn yr ardaloedd sydd â'r mynediad mwyaf at wasanaethau, a thrwy hynny leihau dibyniaeth ar ddulliau trafnidiaeth llai cynaliadwy.<br>• Darparu'r mas critigol sydd ei angen i gyfiawnhau a chefnogi uwchraddio ffurfiau mwy cynaliadwy a llesol o drafnidiaeth (h.y. cludiant cyhoeddus, seilwaith beicio, seilwaith cerddwyr).<br>• Gallai greu cynnydd mewn teithiau unigol mewn cerbydau a fydd yn rhoi mwy o bwysau ar rwydweithiau presennol y ffyrdd, argaeledd parcio, cyfleusterau gwefru cerbydau trydan, ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. |
| **Adnoddau Naturiol**<br>Rheoli'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn gynaliadwy i fodloni anghenion cymunedau presennol a'r dyfodol, drwy sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gwell canlyniadau iechyd, a chreu economi gylchol lwyddiannus a thwf gwyrdd. | 1, 2, 3, 7 | 1, 2, 5 | • Gallai amddiffyn yr adnoddau naturiol sydd y tu allan i ffiniau aneddfannau presennol rhag pwysau ehangu trefol (e.e. mwynau, aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, coedwigoedd, pysgodfeydd, planhigion a phridd).<br>• Gallai pwysau i gyflwyno lefelau twf i gwrdd â rôl strategol Casnewydd gynyddu'r pwysau ar adnoddau naturiol presennol a'u hansawdd o fewn ffiniau aneddfannau presennol (h.y. aer, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion).<br>• Gallai'r patrwm cryno a dwys o ddatblygu a gefnogir gan y dewis hwn fod a photensial am ddatblygu cynlluniau economi cylchol i reoli gwastraff (e.e. casglu gwastraff a ddidolwyd yn breifat neu'n gyhoeddus i'w ail-ddefnyddio/ail-brosesu yn benodol). |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br>Cynnal, cyfoethogi a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'r cyffiniau, gan gynnwys gwell gwytnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, a sicrhau ar yr un pryd fod manteision net yn cael eu hwyluso o'r datblygiad. | 2, 7 | 2, 5 | • Gwarchod ardaloedd ecolegol sensitif sydd ar hyn o bryd y tu allan i ffiniau aneddfannau presennol rhag pwysau ehangu trefol.<br>• Gwarchod y Safleoedd Geoamrywiaeth Rhanbarthol Bwysig yng Nghasnewydd rhag pwysau ehangu trefol.<br>• Gall pwysau i gyflwyno'r lefelau twf sydd eu hangen i gwrdd â rôl strategol Casnewydd gyfyngu ar gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd mewn ardaloedd trefol. Byddai hefyd yn cynyddu'r pwysau ar nodweddion sy'n bodoli eisoes a'u hansawdd yn yr ardaloedd hyn. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

**Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol (TDdF) Arweinir** - Byddai agwedd a arweinir gan TDdF yn golygu parhad o'r strategaeth ofodol bresennol, gan ganolbwyntio twf ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. Byddai'n galw am ddatblygiadau dwysedd uchel o fewn ffiniau trefol a byddai angen edrych i mewn i ail-ddefnyddio tir cyflogaeth neu ddiwydiannol sy'n dirywio naill ai ar gyfer tai neu fathau newydd o gyflogaeth. Dan y dewis hwn, dylid osgoi defnyddio tir glas i'r graddau y bo hynny'n bosib.


| Amcan CDLlN | Dolenni i Nodau Llesiant | Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol | Dadansoddiad |
|---|---|---|---|
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Diogelu, gwella a gwireddu gwerth asedau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig. | 5, 6, 7 | 4, 5 | • Gall roi pwysau diangen ar gadw asedau hanesyddol o fewn ffiniau aneddfannau presennol oherwydd lefelau'r twf sydd eu hangen.<br>• Gall hefyd roi'r symbyliad angenrheidiol i adfer ac ailddefnyddio asedau hanesyddol sydd wedi dadfeilio am nad ydynt yn cael eu defnyddio. |
| **Tirlun**<br>Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig. | 2, 3, 6, 7 | 2, 5 | • Byddai'r dewis hwn yn cadw nodweddion tirwedd, trefwedd a morwedd presennol Casnewydd.<br>• Gall gyfyngu ar gyfleoedd gwella oherwydd swm y datblygiad a'r lleoliadau posib ar ei gyfer. |
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau, addasu a lliniaru. | 1, 2, 3, 4, 7 | 1, 2, 3, 5 | • Cefnogi patrwm anheddiad cryno sy'n canoli datblygiadau yn yr ardaloedd sydd â'r mwyaf o fynediad at wasanaethau, a thrwy hynny leihau dibyniaeth ar ddulliau trafnidiaeth llai cynaliadwy.<br>• Gwarchod ardaloedd ecolegol sensitif sydd ar hyn o bryd y tu allan i ffiniau aneddfannau presennol rhag pwysau ehangu trefol.<br>• Cynyddu'r potensial am sefydlu rhwydweithiau gwres lleol i leihau'r galw am wres ac ynni.<br>• Mae cyfran fawr o dir TDdF mewn ardaloedd sydd yn agored i'r risg o lifogydd. Mae diogelu rhag risg o lifogydd yn awr ac yn y dyfodol o ganlyniad i newid hinsawdd yn ystyriaeth allweddol. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

## Ehangu Trefol

Byddai cymryd agwedd o ehangu trefol yn gofyn nodi tir ar gyrion  ffiniau trefi. Mae hyn yn debyg o fod yn gryn swm o dwf ar dir glas, ac nid yw'n glir a fyddai cyfyngiadau ar dir yn cyfyngu hefyd ar gyfradd y twf.



# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLlN

| **Ehangu Trefol** - Byddai cymryd agwedd o ehangu trefol yn gofyn nodi tir ar gyrion ffiniau trefi. Mae hyn yn debyg o fod yn gryn swm o dwf ar dir glas, ac nid yw'n glir a fyddai cyfyngiadau ar dir yn cyfyngu hefyd ar gyfradd y twf. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer twf economaidd Casnewydd drwy gynnig ystod a dewis amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell, sy'n addasu i newid ac yn bodloni anghenion Casnewydd a thu hwnt, gan gefnogi gweithlu medrus, gwydn a chryf. | 1, 2, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'r dewis yn dibynnu'n sylweddol ar nodi tir glas priodol i wneud lle iddo. O'r herwydd, ni fyddai yn cadw'n gadarn at flaenoriaethu tir llwyd, sy'n groes i bolisi cenedlaethol.<br>• Byddai cyfyngiadau sylweddol y tu allan i ffiniau aneddfannau presennol yn lleihau nifer y llefydd lle gallai ehangu trefol posib ddigwydd (h.y. Lleiniau Gwyrdd, Lletemau Gwyrdd, Gwastadeddau Gwent, etc).<br>• Am resymau tebyg, efallai na fydd ehangu trefol yn digwydd yn wastad o ffiniau'r aneddfannau presennol. O'r herwydd, gall rhai ardaloedd elwa fwy na rhannau eraill y ddinas o'r ehangu.<br>• Byddai ehangu trefol yn caniatáu mwy o allu i geisio cwrdd â lefelau o dwf rhanbarthol a buddsoddiad a ddisgwylir fel rhan o ddynodiad Casnewydd fel Ardal Dwf Genedlaethol. |
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Casnewydd, fel ardal dwf genedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedol ac anheddol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai safleoedd a nodwyd ar gyfer ehangu trefol yn debyg o fod yn fwy abl i ddarparu amrywiaeth o fathau o dai a'u cyfansoddiad i gynnal cymuned gytbwys a chynaliadwy, yn ogystal â'r niferoedd sydd eu hangen i gwrdd â pholisïau cenedlaethol.<br>• Byddai safleoedd a nodwyd ar gyfer ehangu trefol yn debyg o fod yn fwy abl i ddarparu'r seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol sydd ei angen i gefnogi anghenion yr ardaloedd hyn, yn ogystal ag unrhyw ardaloedd trefol presennol<br>• Cyfle i gyflwyno tai o'r radd flaenaf i'r safon cynaliadwyedd ac adeiladwaith uchaf.<br>• Mae pwysau i sicrhau bod yr ardaloedd ehangu hyn wedi eu cysylltu'n briodol ag ardaloedd trefol sy'n bod eisoes, ac nid ydynt yn ymddangos yn bell nac wedi eu hynysu oddi wrth ardaloedd trefol sy'n bod eisoes. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

| **Ehangu Trefol** - Byddai cymryd agwedd o ehangu trefol yn gofyn nodi tir ar gyrion ffiniau trefi. Mae hyn yn debyg o fod yn gryn swm o dwf ar dir glas, ac nid yw'n glir a fyddai cyfyngiadau ar dir yn cyfyngu hefyd ar gyfradd y twf. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLIN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Iechyd a Lles**<br>Gwella iechyd a lles drwy greu lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n hygyrch, iach ac actif, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 3,4 | • Yn dibynnu ar leoliad ardaloedd ehangu posib, gallant gael effaith andwyol ar yr ardaloedd rheoli ansawdd aer cyfredol, yn groes i bolisi.<br>• Gallai dylunio trefol ledled ardaloedd ehangu olygu llai o gyfleoedd i droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ddigwydd.<br>• Gallai gyfrannu'n gadarnhaol tuag at gyflwyno cyfleusterau sy'n hyrwyddo dulliau llesol o fyw (h.y. parciau, rhwydweithio teithio llesol, cyfleusterau a gwasanaethau dyddiol o fewn pellter cerdded/beicio) yn yr ardaloedd ehangu hyn, yn ogystal â chefnogi ardaloedd trefol presennol sydd gerllaw. |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Creu mannau cadarnhaol o ansawdd, lle mae datblygiadau'n gwireddu'r manteision lluosog o greu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig, hyblyg, hygyrch a chydlynol lle mae diwylliant Casnewydd, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. | 1, 4, 5, 6 | 1, 3, 4 | • Mae cyfleoedd i sicrhau bod ardaloedd ehangu yn gymysgedd priodol o fathau a chyfansoddiad o dai i gefnogi amrywiaeth o anghenion yn y gymuned.<br>• Rhaid i ardaloedd ehangu ymchwilio a chyflwyno cyfleusterau, seilwaith a gwasanaethau sydd eu hangen i gefnogi'r ardaloedd hyn, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi dulliau llesol o fyw.<br>• Gall unrhyw gyfleusterau, seilwaith neu wasanaethau newydd a gyflwynir fel rhan o'r ardaloedd ehangu hyn leihau pwysau ar y rhai sy'n bodoli yn yr ardaloedd trefol.<br>• Yn yr un modd, gall buddsoddiad yn y cyfleusterau, seilwaith a'r gwasanaethau newydd hyn olygu na chaiff cyfleusterau, seilwaith a gwasanaethau presennol mewn ardaloedd trefol presennol eu gwella. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

| **Ehangu Trefol** - Byddai cymryd agwedd o ehangu trefol yn gofyn nodi tir ar gyrion ffiniau trefi. Mae hyn yn debyg o fod yn gryn swm o dwf ar dir glas, ac nid yw'n glir a fyddai cyfyngiadau ar dir yn cyfyngu hefyd ar gyfradd y twf. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Trafnidiaeth a Symud**<br>Lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o opsiynau teithio cynaliadwy. | 1, 3, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Gall ehangu trefol ddigwydd mewn ardaloedd gyda mynediad gwael at wasanaethau presennol sy'n cefnogi bywyd beunyddiol, ac fe fyddai felly yn debygol o gynyddu hyd a nifer y teithiau unigol mewn cerbydau.<br>• O ganlyniad, bydd yn ychwanegu pwysau at rwydweithiau presennol y ffyrdd, argaeledd parcio, cyfleusterau gwefru cerbydau trydan, ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, etc.<br>• Byddai'n rhaid i unrhyw ehangu trefol gadw hyn mewn cof a sicrhau bod gan yr ardaloedd newydd hynny ddigon o seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol i leihau galwadau teithio, a chynnal dewisiadau mwy cynaliadwy o ran trafnidiaeth (h.y. cludiant cyhoeddus, seilwaith beicio, seilwaith cerddwyr). |
| **Adnoddau Naturiol**<br>Rheoli'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn gynaliadwy i fodloni anghenion cymunedau presennol a'r dyfodol, drwy sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gwell canlyniadau iechyd, a chreu economi gylchol lwyddiannus a thwf gwyrdd. | 1, 2, 3, 7 | 1, 2, 5 | • Rhoi pwysau ar yr adnoddau naturiol y tu allan i ffiniau aneddfannau presennol (e.e. mwynau, aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, coedwigoedd, pysgodfeydd, planhigion a phridd gan gynnwys tir amaethyddol da).<br>• Bydd yn rhaid i ardaloedd ehangu ystyried cyfleoedd am ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr economi lleol cylchol ( e.e. casglu gwastraff a ddidolwyd yn breifat neu'n gyhoeddus i'w ail-ddefnyddio/ail-brosesu yn benodol). |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br>Cynnal, cyfoethogi a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'r cyffiniau, gan gynnwys gwell gwytnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, a sicrhau ar yr un pryd fod manteision net yn cael eu hwyluso o'r datblygiad. | 2, 7 | 2, 5 | • Rhoi pwysau ar ardaloedd ecolegol sensitif sydd ar hyn o bryd y tu allan i ffiniau aneddfannau presennol.<br>• Rhoi pwysau ar y Safleoedd Geoamrywiaeth Rhanbarthol Bwysig yng Nghasnewydd.<br>• Cyfleoedd i ymchwilio i wella bioamrywiaeth, cysylltedd nodweddion sy'n bod eisoes, a chyswllt ag ardaloedd trefol trwy'r dewis hwn. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN


| **Ehangu Trefol** - Byddai cymryd agwedd o ehangu trefol yn gofyn nodi tir ar gyrion ffiniau trefi. Mae hyn yn debyg o fod yn gryn swm o dwf ar dir glas, ac nid yw'n glir a fyddai cyfyngiadau ar dir yn cyfyngu hefyd ar gyfradd y twf. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Diogelu, gwella a gwireddu gwerth asedau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig. | 5, 6, 7 | 4, 5 | • Gall roi pwysau diangen ar gadw asedau hanesyddol yng nghefn gwlad oherwydd lefel y twf sydd ei angen.<br>• Gall roi cyfle i adfer ac ail-ddefnyddio asedau hanesyddol sydd wedi adfeilio oherwydd diffyg defnydd.<br>• Gall roi cyfle i wella asedau hanesyddol a'u hamlygrwydd mewn lleoliadau llai hygyrch. |
| **Tirlun**<br>Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig. | 2, 3, 6, 7 | 2, 5 | • Gall y dewis greu pwysau ar nodweddion tirwedd, trefwedd a morwedd presennol Casnewydd. Efallai y bydd angen asesu mwy ar ardaloedd tirwedd er mwyn eu gwarchod.<br>• Cyfle i wella nodweddion penodol y dirwedd fyddai fel arall yn anhygyrch. |
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau, addasu a lliniaru. | 1, 2, 3, 4, 7 | 1, 2, 3, 5 | • Mae'n debyg y byddai ehangu trefol yn cynyddu nifer a phellter teithiau unigol mewn cerbydau. O'r herwydd, byddai'n rhaid i unrhyw ehangu gael ei gefnogi gan gyfleusterau, seilwaith, gwasanaethau fyddai'n cwrdd ag anghenion yr ardaloedd hyn ac yn hyrwyddo ffurfiau teithio mwy llesol a chynaliadwy.<br>• Rhoi pwysau ar ardaloedd ecolegol sensitif sydd ar hyn o bryd y tu allan i ffiniau aneddfannau presennol.<br>• Dylai ardaloedd ehangu ymchwilio i gyfleoedd posib i sefydlu rhwydweithiau gwres lleol i leihau'r galw am wres ac ynni.<br>• Dylai ehangu osgoi ardaloedd sy'n agored i'r risg o lifogydd. Mae diogelu rhag risg o lifogydd yn awr ac yn y dyfodol o ganlyniad i newid hinsawdd yn ystyriaeth allweddol. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

## Ffocws ar Bentrefi

Byddai canoli ar bentrefi yn cyfeirio datblygiadau tai tuag at y naw pentref a ddiffiniwyd, sef Castleton a Marshfield; Llansanffraid; Llangadwaladr; Llanwern; Underwood; Llanfaches; Parc Seymour; Christchurch a Chaerllion. Mae rhai pentrefi yn fwy cyfyngedig nag eraill ac o'r herwydd byddai pentrefi â llai o gyfyngiadau yn cefnogi cyfran uchel o dwf dan y senario hon. Mae cyfeirio datblygiadau tuag at bentrefi yn unig yn debyg o arwain at ddefnyddio llawer o dir glas ac nid yw'n debyg o gefnogi cyfradd uwch o dwf oherwydd swm y tir sydd ar gael a lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol.



# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLlN

| **Ffocws ar Bentrefi** - Byddai canoli ar bentrefi yn cyfeirio datblygiadau tai tuag at y naw pentref a ddiffiniwyd, sef Castleton a Marshfield; Llansanffraid; Llangadwaladr; Llanwern; Underwood; Llanfaches; Parc Seymour; Christchurch a Chaerllion. Mae rhai pentrefi yn fwy cyfyngedig nag eraill ac o'r herwydd byddai pentrefi â llai o gyfyngiadau yn cefnogi cyfran uchel o dwf dan y senario hon. Mae cyfeirio datblygiadau tuag at bentrefi yn unig yn debyg o arwain at ddefnyddio llawer o dir glas ac nid yw'n debyg o gefnogi cyfradd uwch o dwf oherwydd swm y tir sydd ar gael a lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer twf economaidd Casnewydd drwy gynnig ystod a dewis amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell, sy'n addasu i newid ac yn bodloni anghenion Casnewydd a thu hwnt, gan gefnogi gweithlu medrus, gwydn a chryf. | 1, 2, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Gallai gefnogi arallgyfeirio'r economi wledig<br>• Gallai gefnogi gwytnwch a bywiogrwydd y cymunedau gwledig hyn.<br>• Gall newid yn sylweddol natur arbennig a hunaniaeth y pentrefi hyn.<br>• Gall ganiatáu defnyddiau cyflogaeth na fyddai fel arfer yn cael eu hystyried yn briodol mewn lleoliadau mwy anghysbell (h.y. mwy o draffig, defnydd anghydnaws).<br>• Byddai'r dewis yn dibynnu llawer ar nodi tir glas addas i wneud lle iddo. O'r herwydd, ni fyddai yn glynu'n agos at flaenoriaethu tir llwyd yn ôl gofynion polisi cenedlaethol.<br>• Byddai cyfyngiadau sylweddol y tu allan i ffiniau presennol pentrefi yn lleihau nifer y mannau lle gallai ehangu ddigwydd (h.y. Lleiniau Gwyrdd, Lletemau Gwyrdd, Gwastadeddau Gwent, etc).<br>• Mae'n annhebyg y byddai'r dewis hwn yn rhoi digon o le i'r lefelau o dwf rhanbarthol a buddsoddiad fyddai eu hangen fel rhan o ddynodiad Ardal Dwf Genedlaethol Casnewydd. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLlN

| **Ffocws ar Bentrefi** - Byddai canoli ar bentrefi yn cyfeirio datblygiadau tai tuag at y naw pentref a ddiffiniwyd, sef Castleton a Marshfield; Llansanffraid; Llangadwaladr; Llanwern; Underwood; Llanfaches; Parc Seymour; Christchurch a Chaerllion. Mae rhai pentrefi yn fwy cyfyngedig nag eraill ac o'r herwydd byddai pentrefi â llai o gyfyngiadau yn cefnogi cyfran uchel o dwf dan y senario hon. Mae cyfeirio datblygiadau tuag at bentrefi yn unig yn debyg o arwain at ddefnyddio llawer o dir glas ac nid yw'n debyg o gefnogi cyfradd uwch o dwf oherwydd swm y tir sydd ar gael a lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Casnewydd, fel ardal dwf genedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedol ac anheddol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 1, 2, 3, 4 | • Gallai gefnogi gwytnwch a bywiogrwydd y cymunedau gwledig hyn.<br>• Gallai newid yn sylweddol arbenigrwydd lleol a hunaniaeth gyfredol y pentrefi hyn.<br>• Gallai roi cyfleoedd i drigolion presennol y pentrefi hyn a'u teuluoedd i aros yn y gymuned at y dyfodol.<br>• Byddai'r dewis yn dibynnu'n sylweddol ar nodi tir glas addas i wneud lle iddo. O'r herwydd, ni fyddai yn glynu'n agos at flaenoriaethu tir llwyd yn ôl gofynion polisi cenedlaethol.<br>• Byddai cyfyngiadau sylweddol y tu allan i ffiniau presennol pentrefi yn lleihau nifer y mannau lle gallai ehangu ddigwydd (h.y. Lleiniau Gwyrdd, Lletemau Gwyrdd, Gwastadeddau Gwent, etc).<br>• Mae'n annhebyg y byddai'r dewis hwn yn rhoi digon o le i'r lefelau o dwf rhanbarthol a buddsoddiad fyddai eu hangen fel rhan o ddynodiad Ardal Dwf Genedlaethol Casnewydd. |
| **Iechyd a Lles**<br>Gwella iechyd a lles drwy greu lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n hygyrch, iach ac actif, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 3,4 | • Byddai caniatáu twf yn y cymunedau hyn yn cefnogi gwytnwch a bywiogrwydd y cymunedau gwledig hyn at y dyfodol.<br>• Rhoi cyfleoedd i drigolion presennol y pentrefi hyn a'u teuluoedd aros yn y gymuned at y dyfodol, gan feithrin cysylltiadau cymunedol ac ymdeimlad clir o le.<br>• Gallai twf fywiogi'r pentrefi hyn ac o'r herwydd ni fyddai cymaint o gyfle i gyflawni troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd hyn.<br>• Mae'n debyg y byddai'r manteision wedi eu cyfyngu'n ofodol i'r cymunedau hyn. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLlN

| **Ffocws ar Bentrefi** - Byddai canoli ar bentrefi yn cyfeirio datblygiadau tai tuag at y naw pentref a ddiffiniwyd, sef Castleton a Marshfield; Llansanffraid; Llangadwaladr; Llanwern; Underwood; Llanfaches; Parc Seymour; Christchurch a Chaerllion. Mae rhai pentrefi yn fwy cyfyngedig nag eraill ac o'r herwydd byddai pentrefi â llai o gyfyngiadau yn cefnogi cyfran uchel o dwf dan y senario hon. Mae cyfeirio datblygiadau tuag at bentrefi yn unig yn debyg o arwain at ddefnyddio llawer o dir glas ac nid yw'n debyg o gefnogi cyfradd uwch o dwf oherwydd swm y tir sydd ar gael a lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Creu mannau cadarnhaol o ansawdd, lle mae datblygiadau'n gwireddu'r manteision lluosog o greu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig, hyblyg, hygyrch a chydlynol lle mae diwylliant Casnewydd, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. | 1, 4, 5, 6 | 1, 3, 4 | • Byddai caniatáu twf yn y cymunedau hyn yn cefnogi gwytnwch a bywiogrwydd y cymunedau gwledig hyn at y dyfodol.<br>• Gallai twf yn y pentrefi ac o'u cwmpas wneud lle i anghenion amrywiol y gymuned ehangach.<br>• Efallai mai cyfyngedig fyddai'r cyfle i ehangu cyfleusterau, seilwaith a gwasanaethau lleol, i gwrdd â thwf. O'r herwydd, efallai y byddai'n rhaid i drigolion presennol a rhai yn y dyfodol deithio ymhellach i gwrdd ag anghenion beunyddiol. |
| **Trafnidiaeth a Symud**<br>Lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o opsiynau teithio cynaliadwy. | 1, 3, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Mae mynediad at wasanaethau yn amrywio o bentref i bentref, ond yn gyffredinol mae'r rhan fwyaf o wasanaethau beunyddiol yn waeth na'r rhai mewn ardaloedd trefol presennol. O'r herwydd, byddai twf yn y mannau anghysbell hyn yn debygol iawn o gynyddu hyd a nifer teithiau unigol mewn cerbydau.<br>• O'r herwydd, bydd hyn yn ychwanegu pwysau ar rwydweithiau presennol y ffyrdd a all eisoes fod yn safon isel o ran lefelau twf posib. |
| **Adnoddau Naturiol**<br>Rheoli'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn gynaliadwy i fodloni anghenion cymunedau presennol a'r dyfodol, drwy sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gwell canlyniadau iechyd, a chreu economi gylchol lwyddiannus a thwf gwyrdd. | 1, 2, 3, 7 | 1, 2, 5 | • Rhoi pwysau ar yr adnoddau naturiol y tu allan i ffiniau presennol pentrefi (e.e. mwynau, aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, coedwigoedd, pysgodfeydd, planhigion a phridd), gan gynnwys tir amaethyddol da. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

| **Ffocws ar Bentrefi** - Byddai canoli ar bentrefi yn cyfeirio datblygiadau tai tuag at y naw pentref a ddiffiniwyd, sef Castleton a Marshfield; Llansanffraid; Llangadwaladr; Llanwern; Underwood; Llanfaches; Parc Seymour; Christchurch a Chaerllion. Mae rhai pentrefi yn fwy cyfyngedig nag eraill ac o'r herwydd byddai pentrefi â llai o gyfyngiadau yn cefnogi cyfran uchel o dwf dan y senario hon. Mae cyfeirio datblygiadau tuag at bentrefi yn unig yn debyg o arwain at ddefnyddio llawer o dir glas ac nid yw'n debyg o gefnogi cyfradd uwch o dwf oherwydd swm y tir sydd ar gael a lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br>Cynnal, cyfoethogi a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'r cyffiniau, gan gynnwys gwell gwytnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, a sicrhau ar yr un pryd fod manteision net yn cael eu hwyluso o'r datblygiad. | 2, 7 | 2, 5 | • Rhoi pwysau ar ardaloedd ecolegol sensitif y tu allan i ffiniau'r aneddfannau presennol.<br>• Rhoi pwysau ar y Safleoedd Geoamrywiaeth Rhanbarthol Bwysig yng Nghasnewydd.<br>• Gallai cyfleoedd i ymchwilio i welliannau i fioamrywiaeth a chysylltedd nodweddion presennol yn yr ardaloedd hyn fod yn amlwg, er y gallai pwysau ychwanegol ddeillio. |
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Diogelu, gwella a gwireddu gwerth asedau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig. | 5, 6, 7 | 4, 5 | • Gallai roi pwysau diangen ar gadw asedau hanesyddol mewn pentrefi ac yng nghefn gwlad.<br>• Gall roi cyfle i adfer ac ail-ddefnyddio asedau hanesyddol sydd wedi adfeilio oherwydd diffyg defnydd.<br>• Gall roi cyfle i wella asedau hanesyddol a'u hamlygrwydd mewn lleoliadau llai hygyrch. |
| **Tirlun**<br>Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig. | 2, 3, 6, 7 | 2, 5 | • Gall y dewis greu pwysau ar nodweddion tirwedd, trefwedd a morwedd presennol Casnewydd. Efallai y bydd angen asesu mwy ar ardaloedd tirwedd er mwyn eu gwarchod.<br>• Cyfle i wella nodweddion penodol y dirwedd fyddai fel arall yn anhygyrch. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN


| **Ffocws ar Bentrefi** - Byddai canoli ar bentrefi yn cyfeirio datblygiadau tai tuag at y naw pentref a ddiffiniwyd, sef Castleton a Marshfield; Llansanffraid; Llangadwaladr; Llanwern; Underwood; Llanfaches; Parc Seymour; Christchurch a Chaerllion. Mae rhai pentrefi yn fwy cyfyngedig nag eraill ac o'r herwydd byddai pentrefi â llai o gyfyngiadau yn cefnogi cyfran uchel o dwf dan y senario hon. Mae cyfeirio datblygiadau tuag at bentrefi yn unig yn debyg o arwain at ddefnyddio llawer o dir glas ac nid yw'n debyg o gefnogi cyfradd uwch o dwf oherwydd swm y tir sydd ar gael a lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau, addasu a lliniaru. | 1, 2, 3, 4, 7 | 1, 2, 3, 5 | • Byddai canolbwynt ar bentrefi yn debygol iawn o gynyddu nifer a phellter teithiau unigol mewn cerbydau, gyda llai o gyfle i hyrwyddo ffurfiau llesol a chynaliadwy o drafnidiaeth yn yr ardaloedd hyn.<br>• Rhoi pwysau ar ardaloedd ecolegol sensitif sydd ar hyn o bryd y tu allan i ffiniau aneddfannau presennol.<br>• Dylai ehangu osgoi ardaloedd sy'n agored i'r risg o lifogydd. Mae diogelu rhag risg o lifogydd yn awr ac yn y dyfodol o ganlyniad i newid hinsawdd yn ystyriaeth allweddol. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

## Agwedd Hybrid

Byddai agwedd hybrid yn cynnwys cymysgedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, safleoedd ar ffiniau trefi a safleoedd mewn pentrefi presennol ac ar eu cyrion. Gallai'r strategaeth hon dynnu ar fanteision gofodol y dewisiadau eraill, ond gallai fod yn anodd cydbwyso twf ar draws y dewis hwn.



# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLlN

| **Agwedd Hybrid** - Byddai agwedd hybrid yn cynnwys cymysgedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, safleoedd ar ffiniau trefi a safleoedd mewn pentrefi presennol ac ar eu cyrion. Gallai'r strategaeth hon dynnu ar fanteision gofodol y dewisiadau eraill, ond gallai fod yn anodd cydbwyso twf ar draws y dewis hwn. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Economi a Chyflogaeth**<br>Darparu ar gyfer twf economaidd Casnewydd drwy gynnig ystod a dewis amrywiol o gyfleoedd cyflogaeth newydd a gwell, sy'n addasu i newid ac yn bodloni anghenion Casnewydd a thu hwnt, gan gefnogi gweithlu medrus, gwydn a chryf. | 1, 2, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Byddai'n asio gyda'r ffocws polisi cenedlaethol ar gyfer y prawf dilynol am ddatblygu TDdF a chanol trefi yn gyntaf.<br>• Byddai defnyddio cyfuniad o TDdF a thir glas, y tu mewn i ffiniau trefi a phentrefi presennol ac o'u cwmpas, yn caniatáu mwy o allu a hyblygrwydd i gyflenwi dynodiad strategol Casnewydd fel Ardal Dwf Genedlaethol.<br>• A derbyn mai hyn a hyn o dir TDdF sydd, efallai na fydd yn cyfrannu'n ystyrlon at yr anghenion a ragfynegwyd ar draws 15 mlynedd lawn y cynllun. Mae'n debyg y byddai'n rhaid i'r Dewis Hybrid ddal i ddibynnu'n sylweddol ar nodi tir glas addas i wneud lle i'r angen a ragfynegwyd.<br>• Byddai cyfyngiadau sylweddol y tu allan i ffiniau aneddfannau presennol yn lleihau nifer y llefydd lle gallai ehangu trefol posib ddigwydd (h.y. Lleiniau Gwyrdd, Lletemau Gwyrdd, Gwastadeddau Gwent, etc).<br>• Am resymau tebyg, efallai na fydd ehangu trefol yn digwydd yn wastad o gwmpas ffin yr anheddau presennol. O ganlyniad, gall llai ardaloedd elwa mwy na rhannau eraill o'r ddinas o ehangu.<br>• Byddai ehangu trefol yn caniatáu mwy o allu i geisio cwrdd â lefelau o dwf rhanbarthol a buddsoddiad a ddisgwylir fel rhan o ddynodiad Casnewydd fel Ardal Dwf Genedlaethol.<br>• Gallai'r dewis helpu i adfywio safleoedd sy'n cael eu tanddefnyddio neu wedi dadfeilio.<br>• Mae angen gwaith i bennu pa ardaloedd y gellir eu troi at ddefnydd arall yn dilyn tystiolaeth o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth a'r Astudiaeth Capasiti Trefol. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

| **Agwedd Hybrid** - Byddai agwedd hybrid yn cynnwys cymysgedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, safleoedd ar ffiniau trefi a safleoedd mewn pentrefi presennol ac ar eu cyrion. Gallai'r strategaeth hon dynnu ar fanteision gofodol y dewisiadau eraill, ond gallai fod yn anodd cydbwyso twf ar draws y dewis hwn. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Poblogaeth a Chymunedau**<br>Darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Casnewydd, fel ardal dwf genedlaethol, a sicrhau bod y cartrefi hyn yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol angenrheidiol i ddarparu lleoedd diogel ac iach i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaethau cymunedol ac anheddol. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 1, 2, 3, 4 | • Efallai na fydd modd dosbarthu tai newydd yn wastad ar draws y ddinas. Gallai hyn arwain at rai ardaloedd yn elwa o'r twf hwn, a'r cyfleusterau/gwasanaethau cysylltiedig, ac eraill heb allu manteisio.<br>• Gall pwysau i ddarparu'r seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol newydd wedi ei uwchraddio angenrheidiol i gynnal tai newydd ddigwydd yn anwastad ar draws y ddinas, neu efallai na ellir cyrraedd hyn oherwydd cyfyngiadau yn yr ardaloedd sefydledig.<br>• Dylai safleoedd a nodwyd ar gyfer ehangu trefol fod â mwy o allu i ddarparu amrywiaeth o fathau a chyfansoddiad o dai er mwyn cefnogi cymuned gytbwys a chynaliadwy, yn ogystal â'r niferoedd sydd eu hangen i gwrdd â pholisi cenedlaethol.<br>• Efallai mai gallu cyfyngedig fydd i gael yr amrywiaeth o fathau a chyfansoddiad o dai mewn ardaloedd tir llwyd, gan gydnabod cyfyngiadau ar hyfywedd ariannol gan ddefnyddio safleoedd o'r fath o fewn ffiniau aneddfannau presennol.<br>• Cyfle i gyflwyno tai o ansawdd uchel i'r safonau cynaliadwyedd ac adeiladwaith uchaf.<br>• Pwysau i sicrhau bod yr ardaloedd ehangu hyn wedi eu cysylltu'n briodol ag ardaloedd trefol presennol, ac nad ydynt yn ymddangos yn bell o'r ardaloedd trefol presennol.<br>• Byddai caniatau twf mewn pentrefi dynodedig ac o'u cwmpas yn cefnogi gwytnwch a bywiogrwydd y cymunedau gwledig hyn.<br>• Ar y llaw arall, gallai twf mewn pentrefi dynodedig ac o'u cwmpas newid yn sylweddol natur arbennig a hunaniaeth leol y pentrefi hyn.<br>• Byddai'n rhoi cyfleoedd i drigolion presennol y pentrefi hyn a'u teuluoedd i aros yn y gymuned at y dyfodol.<br>• Byddai potensial am unrhyw dwf mewn pentrefi ac o'u cwmpas yn dibynnu'n drwm ar nodi tir glas addas i wneud lle i hyn. O'r herwydd, ni fyddai yn glynu'n agos at flaenoriaethu tir llwyd yn ôl gofynion polisi cenedlaethol. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLlN

| **Agwedd Hybrid** - Byddai agwedd hybrid yn cynnwys cymysgedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, safleoedd ar ffiniau trefi a safleoedd mewn pentrefi presennol ac ar eu cyrion. Gallai'r strategaeth hon dynnu ar fanteision gofodol y dewisiadau eraill, ond gallai fod yn anodd cydbwyso twf ar draws y dewis hwn. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Iechyd a Lles**<br>Gwella iechyd a lles drwy greu lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sy'n hygyrch, iach ac actif, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. | 1, 2, 3, 4, 5, 6 | 3,4 | • O ystyried lefelau'r twf sydd eu hangen, ac ystod yr ardaloedd y byddai'r dewis hwn yn caniatau i'w cyflwyno, mae'n dra thebygol o gael effaith andwyol ar yr ardaloedd rheoli ansawdd aer cyfredol, yn groes i bolisi.<br>• Gallai defnyddio dylunio trefol priodol ledled gwahanol rannau o'r ddinas leihau cyfleoedd am droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>• Gallai gyfrannu'n gadarnhaol at wella neu gyflwyno cyfleusterau sydd yn hyrwyddo dulliau llesol o fyw (h.y. parciau, rhwydweithiau teithio llesol, cyfleusterau a gwasanaethau beunyddiol o fewn pellter cerdded/beicio) o fewn y ffin anheddau presennol a'r ardaloedd ehangu. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn digwydd yn wastad ar draws y ddinas, yn dibynnu ar y safleoedd sydd ar gael.<br>• Byddai caniatau twf yn y pentrefi yn cefnogi gwytnwch a bywiogrwydd y cymunedau gwledig hyn at y dyfodol.<br>• Rhoi cyfle i drigolion presennol pentrefi diffiniedig a'u teuluoedd yn y gymuned at y dyfodol, gan feithrin cysylltiadau cymunedol ac ymdeimlad clir o uniaethu â'r lle. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLlN

| **Agwedd Hybrid** - Byddai agwedd hybrid yn cynnwys cymysgedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, safleoedd ar ffiniau trefi a safleoedd mewn pentrefi presennol ac ar eu cyrion. Gallai'r strategaeth hon dynnu ar fanteision gofodol y dewisiadau eraill, ond gallai fod yn anodd cydbwyso twf ar draws y dewis hwn. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Creu mannau cadarnhaol o ansawdd, lle mae datblygiadau'n gwireddu'r manteision lluosog o greu cymunedau cynhwysol, cysylltiedig, hyblyg, hygyrch a chydlynol lle mae diwylliant Casnewydd, gan gynnwys y Gymraeg, yn cael ei werthfawrogi a'i hyrwyddo. | 1, 4, 5, 6 | 1, 3, 4 | • Cyfle i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd, boed yn dir llwyd neu dir glas, yn cynnwys cymysgedd priodol o fathau a chyfansoddiad o dai i gefnogi anghenion amrywiol y gymuned.<br>• Gallai gyfrannu'n gadarnhaol at wella cyfleusterau presennol sy'n hyrwyddo dulliau iach o fyw (h.y. parciau, rhwydweithiau teithio llesol, cyfleusterau a gwasanaethau beunyddiol o fewn pellter cerdded/beicio) o fewn y ffin anheddau presennol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn digwydd yn wastad ar draws y ddinas, yn dibynnu ar y safleoedd tir glas sydd ar gael.<br>• Rhaid i ardaloedd ehangu ymchwili a chyflwyno'r cyfleusterau, seilwaith a gwasanaethau sydd eu hangen i gefnogi'r ardaloedd newydd hyn, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi dulliau llesol o fyw. Gall unrhyw gyfleusterau, seilwaith neu wasanaethau newydd a gyflwynir fel rhan o'r ardaloedd ehangu hyn leihau pwysau ar y rhai sy'n bod yn yr ardaloedd trefol. Yn yr un modd, gall buddsoddi yn y cyfleusterau, seilwaith a gwasanaethau newydd hyn olygu na fydd cyfleusterau, seilwaith a gwasanaethau presennol yn cael eu gwella yn yr ardaloedd trefol sy'n bod eisoes.<br>• Byddai caniatau twf mewn pentrefi yn cefnogi gwytnwch a bywiogrwydd y cymunedau gwledig hyn at y dyfodol.<br>• Gallai twf yn y pentrefi hyn ac o'u cwmpas wneud lle i anghenion amrywiol y gymuned ehangach.<br>• Fe all fod cyfleoedd cyfyngedig i ehangu cyfleusterau, seilwaith a gwasanaethau lleol mewn pentrefi i ateb y twf. O'r herwydd, efallai y bydd yn rhaid i'r trigolion presennol ac yn y dyfodol deithio ymhellach i gwrdd ag anghenion dyddiol. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLlN

| **Agwedd Hybrid** - Byddai agwedd hybrid yn cynnwys cymysgedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, safleoedd ar ffiniau trefi a safleoedd mewn pentrefi presennol ac ar eu cyrion. Gallai'r strategaeth hon dynnu ar fanteision gofodol y dewisiadau eraill, ond gallai fod yn anodd cydbwyso twf ar draws y dewis hwn. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Trafnidiaeth a Symud**<br>Lleihau'r angen i deithio a chynyddu'r defnydd a'r ddarpariaeth o opsiynau teithio cynaliadwy. | 1, 3, 4, 5, 7 | 1, 2, 3, 4 | • Gall y dewis hybrid ganiatáu ehangu i ardaloedd gyda mynediad gwaeth at wasanaethau presennol sy'n cynnal bywyd beunyddiol a byddai felly yn fwy tebyg o gynyddu hyd a nifer teithiau unigol mewn cerbydau.<br>• Yn sgîl hyn, bydd mwy o bwysau ar rwydweithiau presennol y ffyrdd, argaeledd parcio, cyfleusterau gwefru cerbydau trydan, ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, etc.<br>• Byddai'n rhaid i unrhyw ehangu trefol gadw hyn mewn cof a sicrhau bod yr ardaloedd newydd hynny yn cael gwasanaethau seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a ffisegol digonol i leihau galwadau am deithio, a chynnig dewisiadau amgen mwy cynaliadwy o deithio (h.y. cludiant cyhoeddus, seilwaith beicio, seilwaith cerddwyr).<br>• Serch hynny, efallai mai cyfyngedig fydd y gallu i uwchraddio fel hyn mewn lleoliadau mwy anghysbell fel pentrefi. O'r herwydd, byddai'n rhaid ystyried y lefelau twf priodol ar gyfer pob pentref ar sail manteision pob un o'r aneddfannau. |
| **Adnoddau Naturiol**<br>Rheoli'r adnoddau naturiol yng Nghasnewydd yn gynaliadwy i fodloni anghenion cymunedau presennol a'r dyfodol, drwy sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gwell canlyniadau iechyd, a chreu economi gylchol lwyddiannus a thwf gwyrdd. | 1, 2, 3, 7 | 1, 2, 5 | • Rhoi pwysau ar yr adnoddau naturiol ledled y ddinas (e.e. mwynau, aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, coedwigoedd, pysgodfeydd, planhigion a phridd), gan gynnwys tir amaethyddol da..<br>• Byddai'n rhaid i ardaloedd ehangu ystyried y potensial am ddatblygu cynlluniau economi cylchol i reoli gwastraff (e.e. casglu gwastraff a ddidolwyd yn breifat neu'n gyhoeddus i'w ail-ddefnyddio/ail-brosesu). |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLIN

| **Agwedd Hybrid** - Byddai agwedd hybrid yn cynnwys cymysgedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, safleoedd ar ffiniau trefi a safleoedd mewn pentrefi presennol ac ar eu cyrion. Gallai'r strategaeth hon dynnu ar fanteision gofodol y dewisiadau eraill, ond gallai fod yn anodd cydbwyso twf ar draws y dewis hwn. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**<br>Cynnal, cyfoethogi a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth Casnewydd a'r cyffiniau, gan gynnwys gwell gwytnwch ecolegol, amrywiaeth, cysylltedd a gallu i addasu, a sicrhau ar yr un pryd fod manteision net yn cael eu hwyluso o'r datblygiad. | 2, 7 | 2, 5 | • Rhoi pwysau ar ardaloedd ecoleg sensitif sydd ar hyn o bryd y tu allan i'r ffiniau anheddol presennol.<br>• Rhoi pwysau ar y Safleoedd Geoamrywiaeth Rhanbarthol Bwysig yng Nghasnewydd.<br>• Bydd angen i ardaloedd ehangu ymchwilio i gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd nodweddion sy'n bod eisoes yn yr ardaloedd hyn, gan gynnwys cysylltiadau ag ardaloedd trefol.<br>• Byddai'r dewis hybrid yn benodol yn caniatau mwy o hyblygrwydd i ledaenu'r twf sydd ei angen ar Gasnewydd ledled y ddinas. O'r herwydd, gall hyn roi mwy o gyfleoedd i wella bioamrywiaeth, nodweddion a chysylltedd presennol mewn trefi, a'u hansawdd, gan na fyddai pwysau bellach ar gyflwyno'r twf angenrheidiol yn unig ar ardaloedd tir llwyd. |
| **Amgylchedd Hanesyddol**<br>Diogelu, gwella a gwireddu gwerth asedau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig. | 5, 6, 7 | 4, 5 | • Gall roi pwysau diangen ar gadw asedau hanesyddol oherwydd lefelau'r twf fydd eu hangen.<br>• Gall roi cyfle i adfer ac ail-ddefnyddio asedau hanesyddol sydd wedi adfeilio oherwydd diffyg defnydd.<br>• Gall roi cyfle i wella asedau hanesyddol a'u hamlygrwydd mewn lleoliadau llai hygyrch. |
| **Tirlun**<br>Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirlun, treflun a morlun Casnewydd, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r nodweddion hyn yn eu cynnig. | 2, 3, 6, 7 | 2, 5 | • Gall y dewis greu pwysau ar nodweddion tirwedd, trefwedd a morwedd presennol Casnewydd. Efallai y bydd angen asesu mwy ar ardaloedd tirwedd er mwyn eu gwarchod.<br>• Cyfle i wella nodweddion penodol y dirwedd fyddai fel arall yn anhygyrch. |

# Atodiad B

# Asesu Dewisiadau Gofodol yn Erbyn y CDLlN

| **Agwedd Hybrid** - Byddai agwedd hybrid yn cynnwys cymysgedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, safleoedd ar ffiniau trefi a safleoedd mewn pentrefi presennol ac ar eu cyrion. Gallai'r strategaeth hon dynnu ar fanteision gofodol y dewisiadau eraill, ond gallai fod yn anodd cydbwyso twf ar draws y dewis hwn. | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan CDLlN** | **Dolenni i Nodau Llesiant** | **Dolenni i Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Deilliannau Creu Lle Cynaliadwy Cenedlaethol** | **Dadansoddiad** |
| **Newid yn yr Hinsawdd**<br>Sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yng Nghasnewydd yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac yn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau, addasu a lliniaru. | 1, 2, 3, 4, 7 | 1, 2, 3, 5 | • Byddai'r dewis hybrid yn fwy tebygol o gynyddu nifer a phellter teithiau unigol mewn ceir. O'r herwydd, byddai'n rhaid i unrhyw ehangu o'r fath gael ei gefnogi gan gyfleusterau, seilwaith, a gwasanaethau fyddai'n cwrdd ag anghenion yr ardaloedd hyn ac yn hyrwyddo dulliau teithio mwy llesol a chynaliadwy.<br>• Ychydig o gyfle fydd gan rai pentrefi i hyrwyddo dulliau teithio mwy llesol a chynaliadwy, ac felly bydd yn rhaid ystyried hyn fesul pentref unigol.<br>• Rhoi pwysau ar ardaloedd ecolegol sensitif sydd ar hyn o bryd y tu allan i ffiniau aneddfannau presennol.<br>• Dylid edrych i mewn i gyfleoedd i sefydlu rhwydweithiau gwresogi i leihau'r galw am wres ac ynni, o fewn y trefi a'r ardaloedd ehangu presennol.<br>• Mae diogelu rhag risg llifogydd yn awr ac yn y dyfodol o ganlyniad i newid hinsawdd yn ystyriaeth allweddol. |